------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 4, Senedd a fideogynhadledd ar Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 7 Chwefror 2024

Amser: 10.15


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Owain Roberts**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6388

SeneddCyllid@senedd.cymru


## Cofrestru

(09.45-10.00)

## Rhag-gyfarfod preifat

(10.00-10.15)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

(10.15)

## 2 Papurau i'w nodi

(10.15)

**2.1 PTN 1 - Ymateb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar ei waith craffu blynyddol ar rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - 26 Ionawr 2024**

(Tudalennau 1 - 6)

**2.2 PTN 2 - Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Oblygiadau Ariannol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) - 26 Ionawr 2024**

(Tudalennau 7 - 12)

**2.3 PTN 3 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024 - 17 Ionawr 2024**

(Tudalennau 13 - 27)

**2.4 PTN 4 - Llythyr gan Archwilio Cymru: Ymateb i waith craffu blynyddol y Pwyllgor Cyllid ar Swyddfa Archwilio Cymru - 1 Chwefror 2024**

(Tudalennau 28 - 38)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.5 PTN 5 – Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru): Ymateb Llywodraeth Cymru – 1 Chwefror 2024**

(Tudalennau 39 – 40)

## 3 Goblygiadau ariannol y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Sesiwn dystiolaeth:

(10.15-11:00) (Tudalennau 41 – 83)

Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Emyr Harries, Dirprwy Gyfarwyddwr, Addysg, Busnes a Llywodraethu, Llywodraeth Cymru

Lloyd Hopkin, Dirprwy Gyfarwyddwr Cwricwlwm, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodedig:

Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

Memorandwm Esboniadol

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

FIN(6)-04-24 - Papur 1 – Papur Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

FIN(6)-04-24 Papur 2 – Llythyr gan Sam Rowlands AS at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 23 Ionawr 2024 (Saesneg yn unig)

## Egwyl

(11.00-11.15)

## 4 Goblygiadau ariannol Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

(11.15-12.15) (Tudalennau 84 – 111)

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Simon Tew – Rheolwr y Bil, Llywodraeth Cymru

Ben Crudge – Pennaeth Polisi Trethi Lleol, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodedig:

Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

(12.15)

## 6 Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(12.15-12.30)

Eitem 2.1

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

Gofynnwch am: Michelle Morris
Ein cyf: MAM/CV
Dyddiad: 26 Ionawr 2024
☎ [redacted]
✉ [redacted]

Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

**Trwy e-bost yn unig**
seneddfinance@senedd.wales

Annwyl Peredur

Diolch am eich adroddiad craffu a osodwyd ar 22 Tachwedd. Yn eich adroddiad rydych yn cyfeirio at ddymuniad y Pwyllgor i gael fy ymateb ffurfiol i'r argymhellion a wnaed. Dyma fy ymatebion a'm sylwadau.

**Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn darparu rhagor o wybodaeth am y goblygiadau o ran adnoddau wrth ymdrin ag achosion cymhleth a sut y mae'r Ombwdsmon yn sicrhau y caiff yr achosion hynny eu datrys yn amserol.**

Fel mae'r Pwyllgor yn ymwybodol, rydym wedi parhau i weld cynnydd pellach yn nifer y cwynion a gawn. Rydym yn parhau i ddatrys achosion yn gynnar pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl ac yn cymryd agwedd gymesur wrth benderfynu pa achosion sy'n addas ar gyfer ymchwiliad manwl. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hadnoddau ar yr achosion mwyaf difrifol, lle gallai ein hymyrraeth nodi methiannau systematig a sbarduno gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Ein hachosion cymhleth yw'r rhai sy'n gofyn am ymchwiliad manwl. Mae dros 80% o'n cwynion am gyrff cyhoeddus yn achosion iechyd sy'n gofyn am gyngor clinigol annibynnol i lywio ein penderfyniadau ynghylch a allai methiant gwasanaeth fod wedi digwydd yn y gofal a'r driniaeth a roddwyd i'r cleifion. Maent yn gofyn am lawer o adnoddau o ran amser staff wrth ymchwilio i gofnodion clinigol manwl a chost cael cyngor clinigol. Hefyd, mae cyfran fawr o'r achosion cod ymddygiad a ymchwiliwn iddynt yn gymhleth, er enghraifft, pan fo'n rhaid casglu tystiolaeth gan sawl tyst neu pan fo achosion yn cael eu herio mewn

gwrandawiadau ym Mhanel Dyfarnu Cymru neu bwyllgorau safonau lleol. Felly, nid yn unig y mae angen adnoddau staff i ymchwilio i'r achosion hyn, ond mae angen mewnbwn sylweddol pellach, ar ôl i ni gau ein hymchwiliad, i gyflwyno achosion mewn gwrandawiadau tribiwnlysoedd a phwyllgorau.

Drwy gydol y flwyddyn hon rydym wedi canolbwyntio ein hadnoddau ar leihau nifer ein hachosion ymchwilio hŷn. Ar gyfer cwynion am gyrff cyhoeddus, mae ein penderfyniadau i ddechrau ymchwiliad manwl, yn bennaf, wedi parhau i gael eu gwneud gan ddau aelod o staff sy'n ymroddedig i'r dasg hon. Mae hyn wedi sicrhau cysondeb wrth gymhwyso ein prawf cymesuredd, gan ganolbwyntio'r prif bynciau cwynion ar faterion allweddol sy'n cael eu datblygu a lleihau nifer y cynghorwyr clinigol annibynnol sydd eu hangen fesul achos. Mae'r arfer hwn wedi parhau i gael yr effaith o leihau llwyth achosion pob un o'n Swyddog Ymchwilio yn ein timau ymchwilio, gan ganiatáu iddynt wneud cynnydd a chau ein hachosion hŷn. Yn ystod cyfnodau pan nad yw swyddi ymchwilwyr wedi'u llenwi, hyd nes y bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn dechrau yn eu swyddi, rydym wedi parhau i ddefnyddio gweithwyr banc i wneud cynnydd ar achosion a lleihau'r pwysau ar ein staff, er enghraifft drwy ddrafftio cais am gyngor clinigol neu adroddiad drafft, i gynorthwyo perchennog yr achos.

I wneud cynnydd ar ein hachosion cod ymddygiad hŷn, rydym wedi rhoi mwy o adnoddau staff i'n tîm cod ymddygiad i weithio ar y cyd, gan ddarparu cymorth ar yr achosion hŷn gyda ffocws ar wneud cynnydd ar achosion a'u cau. Mae'r cymorth hwn hefyd wedi golygu bod nifer yr ymchwiliadau manwl y mae pob ymchwilydd yn eu cynnal wedi lleihau, gan roi lle iddynt wneud cynnydd ar eu hachosion.

Ar 31 Mawrth 2023, roedd 88 o'n hachosion ymchwilio dros 12 mis oed. Ein targed erbyn 31 Mawrth 2024 yw lleihau ein hachosion dros 12 mis gan 50%. Er y gall cynnydd ar achosion gael ei atal weithiau o ganlyniad i faterion annisgwyl sy'n codi, rydym ar hyn o bryd ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed hwn.

**Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn darparu rhagor o wybodaeth am y defnydd o weithwyr achos banc, gan gynnwys y graddau y cawsant eu defnyddio yn ystod y flwyddyn a chostau gwneud hynny.**

Caiff gweithwyr banc eu cyflogi o fewn ein cyllideb staff ac o fewn ein sefydliad staff cyffredinol am y flwyddyn. Gwnawn ddefnydd cyfyngedig o weithwyr banc i lenwi bylchau tymor byr o ganlyniad i drosiant staff ac oedi cyn i staff newydd allu ymgymryd â'u swyddi newydd (e.e. o ganlyniad i gyfnodau rhybudd). Rydym yn recriwtio swyddi gweigion gweithwyr achos yn brydlon, ac rydym yn gweithio i recriwtio a phenodi i gynnal cyflenwad llawn o staff gwaith achos.

Ar gyfer y flwyddyn 2022/23, gwnaethom gyflogi 6 gweithiwr banc a weithiodd (cyfanswm) 0.3 o swydd – tua 0.4% o'n gweithlu. Ar gyfer y flwyddyn 2023/24 hyd yma, rydym wedi cyflogi 7 gweithiwr banc sydd wedi gweithio (cyfanswm) 0.6 o swydd – tua 0.8% o'n gweithlu.

Mae gweithwyr banc yn cael eu cyflogi ar gyfraddau tebyg i'n staff ar lefelau cyfatebol, gydag addasiadau i adlewyrchu'r ffaith eu bod yn derbyn tâl gwyliau yn hytrach na hawl i ddiwrnodau i ffwrdd.

Cyfanswm costau cyflog y gweithwyr banc yn 2022/23 oedd £17k (0.6% o'n cyllideb gyflog) ac yn 2023/24 cyfanswm y gost hyd yma yw £29k (1.2% o'n cyllideb gyflog).

Mae gweithwyr banc yn cyfrif am gyfran fechan o'n costau a'n niferoedd staff, ond serch hynny maent yn helpu i liniaru pwysau'r niferoedd cynyddol o gwynion a throsiant staff.

**Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am fentrau ymgysylltu â staff y bwriedir eu cynnal, yn enwedig o ran sut y mae'r rhain yn lliniaru effaith pwysau llwyth gwaith ar lesiant staff.**

Mae materion llesiant staff wedi'u cynnwys yn ein cofrestr risg, gyda chamau gweithredu i leihau a lliniaru risgiau'n cael eu trafod gan y Tîm Rheoli, a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, fel rhan o ystyriaeth o'r gofrestr risg.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â staff trwy gyfarfodydd un-i-un a chyfarfodydd tîm. Mae ein gwasanaeth cwnsela cyfrinachol a'n swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl yn parhau i fod ar gael i staff, a byddwn yn parhau i gynnig asesiadau risg o straen i staff.

Rydym wedi cynnal gweithdai gyda rheolwyr yn dilyn cyfarfodydd ymgysylltu â'r holl staff ac mae gennym gyfres o ddigwyddiadau llesiant. Byddwn yn cynnal gwiriadau iechyd i staff yn ystod Chwefror/Mawrth.

Yr effaith unigol fwyaf ar lesiant staff fu niferoedd uchel o achosion ar gyfer pob ymchwilwyr – mae'r ymchwilwyr wedi bod â chyfartaledd o 21 o ymchwiliadau parhaus. Rydym wedi canolbwyntio ymdrech sylweddol ar leihau nifer yr achosion ymchwilio y mae gan bob aelod o staff i ddelio â nhw, gan leihau nifer cyfartalog yr achosion fesul ymchwilydd i 14 (ar gyfer cwynion gwasanaeth cyhoeddus). Mae'r cynnydd hwn yn gadarnhaol ar gyfer llesiant staff, yn ogystal ag ar gyfer y gwasanaeth y gallwn ei ddarparu.

Gall ymddygiad rhai achwynwyr waethygu pwysau llwyth gwaith, yn enwedig drwy alwadau ffôn ymosodol a difrïol. Rydym yn annog staff i gymryd amser i ffwrdd o'r 'ffônau' ar ôl galwadau heriol, i adrodd am ymddygiad nad yw'n

cyrraedd y safonau yr ydym yn eu disgwyl ac i siarad gyda chydweithiwr neu eu rheolwr ar ôl y galwadau hyn. Rydym yn darparu hyfforddiant ar ymdrin â sgyrsiau anodd ac yn atgoffa staff yn rheolaidd o'r cymorth ychwanegol sydd ar gael trwy Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl a'r gwasanaeth cwnsela.

Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, fod y pwysau ar staff yn sylweddol ac rydym yn disgwyl i bryderon llesiant barhau i fod yn nodwedd o'r ymatebion i'n harolwg staff tua diwedd y flwyddyn (ariannol) hon.

**Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn egluro sut y bydd yr amcangyfrifon o ran llwyth achosion ar gyfer y dyfodol yn cael eu cyfrifo.**

Mae rhagweld llwythi achosion yn heriol, ac mae hanes diweddar yn dangos pa mor amrywiol y gall y newidiadau fod o flwyddyn i flwyddyn. Mae ein hamcangyfrifon a'n amcanestyniadau wedi bod yn gywir ar y cyfan, er bod amrywiaeth o flwyddyn i flwyddyn.

Byddwn yn monitro ymholiadau a chwynion newydd a gawn bob mis a byddwn yn cymharu â niferoedd ar gyfer yr un cyfnod mewn blynyddoedd blaenorol. Byddwn yn defnyddio'r ffigurau hyn i ragamcanu bob blwyddyn, fel rhan o'r gwaith o baratoi'r amcangyfrif, nifer yr ymholiadau a'r cwynion sy'n debygol o ddod i law yn y misoedd sy'n weddill o'r flwyddyn a'r flwyddyn ganlynol. Yn hytrach na chyflwyno ffigur sengl, byddwn yn cyflwyno ystod y disgwyliwn i nifer yr achosion newydd fod oddi mewn iddi.

**Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y dyfarniad cyflog unwaith y cytunir arno a'i effaith ar y gyllideb.**

Mae'r dyfarniad cyflog wedi'i setlo a thalwyd y codiad cyflog i'r staff ym mis Tachwedd. Y cynnydd cyfartalog o ganlyniad i ddyfarniad cyflog llywodraeth leol ym mis Ebrill 2023 yw tua 5.4%.

**Argymhelliad 6. Os bydd tanwariant o'r swm a gyllidebwyd ar gyfer dyfarniadau cyflog, mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r Ombwdsmon:**

- **ddychwelyd unrhyw gyllid nas defnyddir i Gronfa Gyfunol Cymru drwy'r cynnig cyllidebol atodol nesaf sydd ar gael; a**
- **dileu'r tanwariant hwn o'r llinell sylfaen ar gyfer Amcangyfrif 2024-25.**

Gan fod dyfarniad cyflog Ebrill 2023 yn sylweddol is nag a ragwelwyd yn y cyflwyniad cyllideb atodol yn gynharach yn y flwyddyn, mae'r balans yn cael ei ddychwelyd (Ionawr 2024) drwy gyflwyno cyllideb atodol ar gyfer 2023/24.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, byddwn yn dychwelyd y swm priodol mewn cyflwyniad cyllideb atodol yn chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol.

**Argymhelliad 7. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn darparu’r costau terfynol o ran contract aildendro’r system rheoli achosion.**

£165k fydd y costau ar gyfer 2024/25, o dan y contract newydd ar gyfer ein system rheoli achosion. Mae hyn yn unol â'r costau sydd wedi'u cynnwys yn ein hamcangyfrif a gyflwynwyd.

**Argymhelliad 8. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn parhau i roi diweddariadau ar ei defnydd o ofod swyddfa ac effaith gyllidebol unrhyw newidiadau y mae’n bwriadu eu gwneud yn hyn o beth.**

Rydym wedi gadael llawr cyntaf ac ail lawr ein llety ac rydym wrthi'n chwilio am denantiaid newydd i gymryd yr ardaloedd hyn. Er mai nifer fach o ymweliadau sydd wedi bod, nid oes yr un ohonynt wedi dangos diddordeb cadarn. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

Mae gadael rhannau o'n llety hefyd yn debygol o arwain at dalu dadfeiliadau. Er ein bod wedi gwneud darpariaeth ar gyfer hyn yn ein cyfrifon, ac y byddwn yn gweithio i leihau’r taliad gofynnol, byddai angen cyflwyno cyllideb atodol i ganiatáu i’r ddarpariaeth hon gael ei defnyddio.

Rydym yn gobeithio cyflawni arbedion, o’r gostyngiad mewn gofod swyddfa, y gallwn eu buddsoddi i’n helpu i ateb y galw am ein gwasanaethau ac mewn gwella gwasanaethau, yn enwedig buddsoddi mewn technoleg gwybodaeth sy’n cefnogi ein model gweithredu presennol.

**Argymhelliad 9. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod yr Ombwdsmon yn darparu rhagor o wybodaeth am y canlyniadau a ddisgwylir o gynnydd yn ei allu i ddadansoddi data, gan gynnwys sut y bydd dadansoddiad o’r fath yn llywio dulliau o ymdrin â llwythi achosion.**

Yn amodol ar gymeradwyaeth ffurfiol i’n cyllideb ar gyfer 2024/25, rydym yn cynnig hysbysebu am ddadansoddwr data a’i benodi. Byddwn yn dysgu o brofiadau sefydliadau Ombwdsmon eraill a chan Archwilio Cymru wrth ddatblygu ein hymagwedd. Disgwyliwn i’n gwaith cychwynnol gynnwys:

- adolygu'r data a gasglwn a nodi unrhyw fylchau;
- gwella ansawdd data trwy nodi a mynd i'r afael ag anghysondebau; a
- nodi setiau o ddata allanol a allai lywio ein gwaith.

Bydd y camau hyn yn hwyluso dadansoddi data gwerthfawr. Bydd y penderfyniadau penodol y byddwn yn eu gwneud gan ddefnyddio ein


dadansoddiad data yn dibynnu ar y data, wrth gwrs, ond rydym yn rhagweld y bydd y data yn ein helpu i:

- nodi patrymau yn y cwynion a gawn, yn enwedig mewn cwynion nad ydynt yn datblygu i ymchwiliad;
- arwain ein penderfyniadau ar bynciau adroddiadau thematig ar achosion yr ydym wedi ymchwilio iddynt;
- llywio ein gwaith gwella gyda chyrff cyhoeddus, gan nodi themâu cyffredin ar draws gwasanaethau cyhoeddus a meysydd sy'n benodol i sefydliadau ar gyfer gwella wrth ymdrin â chwynion;
- penderfynu ar bynciau priodol ar gyfer ymchwiliadau ar ei liwt ei hun; a
- nodi a chyrraedd grwpiau nad ydynt efallai'n gwybod am yr Ombwdsmon, neu nad ydynt efallai yn hyderus y gallant fynd at yr Ombwdsmon, gyda'u pryderon am wasanaethau cyhoeddus.

Bydd y wybodaeth hon yn ein helpu i flaenoriaethu achosion a nodi meysydd ychwanegol y dylem ymchwilio iddynt. Gallai ein helpu i ymchwilio i rai meysydd yn thematig, trwy rwpio achosion i ymchwilio gyda'i gilydd yn hytrach nag yn unigol. Er bod y dadansoddiad data yn debygol o nodi meysydd gwaith ychwanegol (pynciau ychwanegol a chwynion ychwanegol gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd), rydym yn disgwyl y bydd y data yn ein helpu i flaenoriaethu achosion i wneud y mwyaf o effaith gadarnhaol ein gwaith.

Byddwn yn adrodd ar ein dadansoddiad data, ac ar ein gwaith cysylltiedig, mewn adroddiadau blynyddol yn y dyfodol.

Yn gywir



**Michelle Morris**
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Eitem 2.2

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

26 Ionawr 2024

Annwyl Peredur

**Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)**

Diolch ichi am adroddiad y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a gyhoeddwyd ar 19 Ionawr 2024. Gweler fy ymateb i gyfres o argymhellion yr adroddiad yn Atodiad 1.

Gan y bydd Pwyllgor o'r Senedd Gyfan yn ystyried y Bil yng Nghyfnod 2, rwy'n rhag-weld y bydd gan nifer sylweddol o Aelodau ddiddordeb ynddo. Gyda hyn mewn golwg, rwy'n darparu ymateb ysgrifenedig i adroddiadau'r Pwyllgorau cyn y ddadl ar egwyddorion cyffredinol.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am graffu ar y Bil a'i ddogfennau ategol. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd ar ei daith drwy broses y Senedd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a phob Aelod o'r Senedd er gwybodaeth.

Yn gywir



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1**

| Argymhelliad | Ymateb |
|---|---|
| **Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, os bydd newidiadau sylweddol i'r Bil wrth iddo fynd drwy'r Senedd, fod y Gweinidog yn cynnal y gwaith modelu angenrheidiol ynghylch costau posibl ac y dylid diweddaru'r rhain mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. ...............................................Tudalen 15 | **Derbyn** |
| **Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn modelu'r arbedion a ragwelir o ganlyniad i'r Bil hwn, a hynny er mwyn mesur effaith y manteision o ran gwaith craffu, gan gyfeirio'n benodol at y gwaith craffu gwell ar ddeddfwriaeth a chyllidebau yn y Senedd, ac i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. ...............Tudalen 15 | **Nodwyd**<br><br>Rwy'n croesawu'r cyfle i fodelu ymhellach yr arbedion a ragwelir o ganlyniad i'r Bil hwn, a hynny er mwyn mesur effaith y manteision o ran gwaith craffu, gan gyfeirio'n benodol at y gwaith craffu gwell ar ddeddfwriaeth a chyllidebau yn y Senedd. Fodd bynnag, ni fydd cynnal ymarfer o'r fath i safon gadarn yn gydnaws â'r amserlenni sy'n gysylltiedig â hynt y Bil drwy'r Senedd, sydd eu hunain yn angenrheidiol er mwyn i'r diwygiadau gael eu cyflawni mewn pryd ar gyfer yr etholiad yn 2026.<br><br>Rwyf hefyd yn ymwybodol bod nifer o astudiaethau academaidd wedi archwilio'n flaenorol yr her o asesu effaith seneddau.<br><br>Y tu allan i gyd-destun y Bil hwn, mae deall effaith craffu yn fater mwy priodol i'r Senedd, a phwyllgorau'r Senedd o ran effeithiolrwydd craffu gan bwyllgorau.<br><br>Er enghraifft, ym mis Mai 2021, dywedodd yr Athro Diana Stirbu: "Un o'r rhwystrau mwyaf wrth ddatblygu fframwaith cydlynol ar gyfer gwerthuso gwaith pwyllgorau yw na all popeth fod yn hawdd ei feintioli a'i fesur. Er enghraifft, mae llawer wedi sôn am effaith 'ataliol' gwaith pwyllgorau yn ein cyfweliadau, ond mae hyn yn anodd ei fesur yn gyffredinol. O ran mesur effaith anuniongyrchol gwaith pwyllgorau, mae'n bosibl dangos tystiolaeth drwy astudiaeth ansoddol o naratifau a chanfyddiadau gweinidogion y Llywodraeth a'r fiwrocratiaeth sy'n eu cefnogi. Mae White yn pwysleisio mor bwysig yw defnyddio ffynonellau ansoddol a meintiol i ddangos |

| | |
|---|---|
| | effeithiolrwydd pwyllgorau."[1] Fodd bynnag, yn yr un adroddiad, nododd yr Athro Stirbu nifer o fesurau y gellid eu defnyddio i bennu effeithiolrwydd pwyllgorau dros y tymor hir.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon ymgysylltu ag unrhyw waith y gallai pwyllgorau'r Senedd, a/neu Fforwm y Cadeiryddion, ddymuno ei wneud i ddeall effaith pwyllgorau yn well yn y dyfodol. |
| **Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn parhau i gyflwyno costau sy'n ymwneud â diwygio'r Senedd fel rhai sydd wedi'u neilltuo yn ei ddogfennaeth ar y gyllideb flynyddol er mwyn sicrhau eglurder a thryloywder. ....Tudalen 15 | **Nodwyd**<br><br>Mae'r argymhelliad hwn ar gyfer Comisiwn y Senedd. Felly, ni ddarperir ymateb penodol yma. |
| **Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn cynnal gwaith modelu pellach o gostau staff y Comisiwn i gynnwys y graddfeydd cyflog isaf ac uchaf i ddarparu ystod o gostau, a bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig............. Tudalen 29 | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Credaf fod y dull a ddefnyddir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi cynrychiolaeth fwy cywir o'r costau tebygol.<br><br>Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu costau ar adeg benodol ac mewn ffordd gyson ar draws sefydliadau. Gellid darparu ffigurau sy'n darparu ystod o gostau staff fel atodiad ar wahân, ac mae trafodaethau ar y gweill â Chomisiwn y Senedd. |
| **Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn gwneud gwaith modelu i ddeall effaith cynnydd yn nifer y pwyllgorau, y tu hwnt i'r tri phwyllgor ychwanegol a amcangyfrifwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ar y manteision o ran gwaith craffu sy'n deillio o'r Bil, ac y dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig........... Tudalen 29 | **Nodwyd**<br><br>Yn y pen draw, mae'r rhain yn benderfyniadau gweithredol ar gyfer Senedd/Pwyllgor Busnes yn y dyfodol i benderfynu ar nifer y pwyllgorau, eu rôl etc. Gwnaed rhagdybiaethau er mwyn rhoi syniad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o gostau posibl, ond nid gyda'r bwriad o rwymo Senedd yn y dyfodol.<br><br>Rwy'n fodlon trafod y mater hwn ymhellach â Chomisiwn y Senedd. |
| **Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn cynnal dadansoddiad cost a budd o nifer y pwyllgorau ychwanegol y gallai fod eu hangen ac y dylid cynnwys y wybodaeth | **Gwrthod**<br><br>Yn y pen draw, mae'r rhain yn benderfyniadau gweithredol ar gyfer Senedd/Pwyllgor Busnes yn y dyfodol i benderfynu ar nifer y pwyllgorau, eu rôl etc. Gwnaed rhagdybiaethau er mwyn rhoi syniad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o gostau |

[1] Yr Athro Diana Stirbu, Pŵer, Dylanwad ac Effaith Pwyllgorau'r Senedd: Datblygu fframwaith ar gyfer mesur effeithiolrwydd pwyllgorau, Mai 2021, https://senedd.wales/media/xtqk0ojr/gen-ld14672-e.pdf; tudalen 70.

| | |
|---|---|
| hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. .... Tudalen 29 | posibl, ond nid gyda'r bwriad o rwymo Senedd yn y dyfodol. |
| **Argymhelliad 7.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn cynnal adolygiad o gyfluniad presennol swyddfeydd yr Aelodau yn Nhŷ Hywel, gan gynnwys:<br>• asesiad a dadansoddiad cost a budd ar y defnydd o weithio cynllun agored; ac<br>• asesiad o'r defnydd o ynni. ............... Tudalen 29 | **Nodwyd**<br><br>Mater i Gomisiwn y Senedd yw hwn. Felly, ni ddarperir ymateb penodol yma. |
| **Argymhelliad 8.** Yng ngoleuni’r system etholiadol newydd a allai arwain at gynnydd yng nghostau teithio, llety preswyl a staff yr Aelodau, mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn ailasesu’r costau hyn ac yn darparu ystod o gostau yn hytrach na defnyddio costau cyfartalog yr Aelodau presennol, a bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. ......... Tudalen 29 | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn trafod y mater ymhellach â Chomisiwn y Senedd, yn enwedig o ran unrhyw effaith ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |
| **Argymhelliad 9.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn diweddaru’r amcangyfrifon cost sy’n ymwneud ag Aelodau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:<br>• gan ddefnyddio'r wybodaeth ariannol o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau diweddaraf sydd ar gael; ac<br>• yn cynnwys y cyflog ychwanegol i arweinwyr grŵp gwleidyddol (nad yw yn y llywodraeth) ar gyfer pob Aelod yn eu grŵp (hyd at yr uchafswm y mae’r Penderfyniad yn ei ganiatau). Tudalen 30 | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu costau ar adeg benodol ac mewn ffordd gyson ar draws sefydliadau. Os bydd ffigurau penderfyniad newydd yn cael eu cyfrifo, byddem yn cynnig cynnwys y rhain mewn atodiad ar wahân.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad i gynnwys y cyflog ychwanegol i arweinwyr grŵp gwleidyddol, ond dylai hyn ddefnyddio'r Penderfyniad ar gyfer 2022-23 er mwyn bod yn gyson â'r ffigurau eraill yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |
| **Argymhelliad 10.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn gwneud rhagor o waith i asesu’r effaith y bydd gwahanol ddemograffeg o ran Aelodau sy’n cael eu hethol o’r newydd yn ei chael ar Gynllun Pensiwn yr Aelodau. ............... Tudalen 30 | **Nodwyd**<br><br>Mater i Gomisiwn y Senedd yw hwn. Felly, ni ddarperir ymateb penodol yma. |
| **Argymhelliad 11.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn | **Nodwyd** |

| | |
|---|---|
| rhoi rhagor o eglurder ynghylch yr amserlen waith a gaiff ei dilyn ar ystadau'r Senedd a Thŷ Hywel os na chytunir ar y Bil. ............. Tudalen 30 | Mater i Gomisiwn y Senedd yw hwn. Felly, ni ddarperir ymateb penodol yma. |
| **Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu tystiolaeth i gadarnhau'r honiad na fydd angen unrhyw staff ychwanegol ar Lywodraeth Cymru o ganlyniad i gynnydd yn aelodaeth y Senedd. ...............Tudalen 33 | **Derbyn**<br><br>Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ceisio darparu'r amcangyfrif gorau o'r costau tebygol o ganlyniad i Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Fodd bynnag, mae ffactorau anhysbys a allai, wrth wneud penderfyniadau yn ddiweddarach, effeithio ar yr amcangyfrifon (o ran costau neu arbedion).<br><br>Mae'n arfer arferol i'r Llywodraeth ailflaenoriaethu adnoddau i fynd i'r afael â blaenoriaethau newydd ac ymateb i heriau heb yr angen i ehangu maint y gwasanaeth sifil (er enghraifft, pandemig Covid-19). Mae'r adnoddau presennol yn darparu ar gyfer cyfrifoldebau presennol Llywodraeth Cymru a rhagwelir na fyddai ond angen adnoddau ychwanegol, er enghraifft, pe bai newid mewn cyfrifoldebau datganoledig. |
| **Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gwneud rhagor o waith i asesu'r effaith y bydd cynnydd mwyaf yn nifer Gweinidogion Cymru yn ei chael ar nifer yr Aelodau sydd ar gael i ymgymryd â rôl graffu, a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar yr arbedion posibl o ganlyniad i waith craffu gwell y cyfeiriodd y Gweinidog atynt..............Tudalen 33 | **Derbyn**<br><br>Ar gyfer yr holl senarios, a nodir yn y Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil, mewn perthynas â chynnydd yn nifer Gweinidogion Cymru, mae cyfran y weithrediaeth o'i chymharu â'r Senedd yn lleihau.<br><br>Mewn termau cymesur, mae Llywodraeth Cymru (12 Gweinidog ynghyd â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol) yn gyfystyr â 23.3% o'r 60 Aelod sydd yn y Senedd ar hyn o bryd. Mewn Senedd fwy, byddai Llywodraeth Cymru a fyddai'n cynnwys 17 o Weinidogion, ynghyd â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol, yn gyfystyr â 19.8% o'r 96 Aelod yn y Senedd.<br><br>Byddai Llywodraeth Cymru a fyddai'n cynnwys 19 o Weinidogion, ynghyd â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol, yn gyfystyr â 21.9% o'r 96 Aelod yn y Senedd. Felly, mae'r terfyn uchaf ar nifer Gweinidogion Cymru y darperir ar ei gyfer yn adran 5 yn sicrhau bod y cynnydd yn nifer yr Aelodau o'r Senedd yn fwy na maint y weithrediaeth mewn unrhyw achos. |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gwneud rhagor o waith i ddeall lefel yr anwadalrwydd o ran aelodaeth o un Senedd i'r nesaf, a'r goblygiadau cost cysylltiedig, gan gynnwys yr effaith ar Gynllun Pensiwn yr Aelodau, yng ngoleuni'r newid i gylch etholiadol pedair blynedd. | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Rwy'n fodlon ystyried yr argymhelliad hwn ymhellach gyda'r bwriad o ddarparu dadansoddiad pellach. O ystyried cwmpas yr argymhelliad, bydd angen gwneud unrhyw waith o'r fath mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd. |
| **Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi eglurhad o'r costau posibl a nodwyd i Lywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol o ganlyniad i gylch etholiadol pedair blynedd............. Tudalen 40 | **Derbyn** |
| **Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gostau unwaith y bydd yr holl newidiadau perthnasol i'r ffiniau wedi'u cwblhau, a hynny er mwyn galluogi'r Pwyllgor neu bwyllgor cyllid yn y dyfodol i ddeall effaith ariannol lawn y Bil. .... Tudalen 40 | **Derbyn** |

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-RE-3052-23

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

17 Ionawr 2024

Annwyl Elin

**RHEOLIADAU ARDRETHU ANNOMESTIG (DIWYGIADAU AMRYWIOL A CHANLYNIADOL I IS-DDEDDFWRIAETH) (CYMRU) 2024**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwyf yn eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 19 Ionawr, llai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef er gwybodaeth ichi.

Gwneir yr offeryn statudol hwn o dan y pwerau a ddarperir gan adrannau 43(4B)(b) a 44(9)(b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988"), a pharagraffau 1 a 2(2)(a) ac (ga) o Atodlen 9 iddi, paragraff 8(1) a (4)(b) o Atodlen 1 i Ddeddf Ardrethu (Eiddo Gwag) 2007(**1**), adran 236(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 ac adran 17(2) o Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023 ("Deddf 2023").

Diwygiodd Rheoliadau Deddf Ardrethu Annomestig 2023 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023") gyfeiriadau at Ddeddf 1988 mewn is-ddeddfwriaeth, o ganlyniad i newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2023. Dylai rhai o'r diwygiadau hyn fod wedi cael eu mynegi fel rhai sy'n cael effaith o flynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2024 neu ar ôl y dyddiad hwnnw, pan fydd darpariaethau perthnasol yn Neddf 2023 (er eu bod eisoes mewn grym) yn cael effaith. Cododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad hyn a phwyntiau adrodd eraill yn eu hadroddiad ar Reoliadau 2023 a chadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai rheoliadau diwygio yn cael eu gwneud cyn gynted â phosibl mewn ymateb.

Mae Rheoliadau 2024 yn hepgor darpariaethau penodol yn rheoliadau 2 a 4, a rheoliad 5 o Reoliadau 2023 ac yn ailddatgan darpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth benodol fel yr

(**1**) 2007 p. 9. Caniateir arfer y pŵer i wneud gorchymyn o dan baragraff 8(1) o Ddeddf Ardrethu (Eiddo Gwag) 2007 i wneud rheoliadau yn rhinwedd adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

oeddent yn gymwys yn union cyn i reoliadau 2, 4 a 5 ddod i rym. Mae hefyd yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i Ddeddf 2023. Ystyrir bod angen dod â'r offeryn statudol hwn i rym cyn gynted â phosibl, i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a sicrhau bod effaith polisi arfaethedig yr is-ddeddfwriaeth berthnasol yn cael ei chadw.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd; Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid; Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd; Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Polisi a Diwygio Ardrethi Annomestig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024.

**Rebecca Evans AS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**17 Ionawr 2024**

**MEMORANDWM ESBONIADOL**

**Disgrifiad**

1. Mae Deddf Ardrethu Annomestig 2023 (“Deddf 2023”) yn darparu ar gyfer ystod o ddiwygiadau i'r system ardrethu annomestig yng Nghymru a Lloegr, drwy ddiwygiadau i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (“Deddf 1988”). Cafodd cynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn cysylltiad â'r darpariaethau sy'n gymwys i Gymru ei gymeradwyo gan y Senedd ar 12 Medi 2023.

2. Darparodd Rheoliadau Deddf Ardrethu Annomestig 2023 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2023 (“Rheoliadau 2023”) ar gyfer diwygiadau canlyniadol angenrheidiol i is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o Ddeddf 2023. Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024") yn mynd i'r afael â hepgoriadau penodol yn Rheoliadau 2023.

**Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

3. Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd fod Rheoliadau 2024 wedi dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl i’r offeryn gael ei osod. Daeth Rheoliadau 2024 i rym y diwrnod ar ôl iddynt gael eu gosod i sicrhau bod y hepgoriadau yn Rheoliadau 2023 yn cael sylw cyn gynted â phosibl.

4. Daeth Rheoliadau 2023 i rym ar 27 Hydref 2023. Cododd adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 20 Tachwedd 2023 (SL(6)402) ynghylch Rheoliadau 2023 dri phwynt adrodd technegol. Roedd un o'r rhain yn cynnwys cais am eglurhad pam na fynegwyd bod y diwygiadau penodol a wnaed gan Reoliadau 2023 yn cael effaith o flynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2024 neu ar ôl y dyddiad hwnnw. Cadarnhaodd ymateb Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor y byddai rheoliadau diwygio pellach yn cael eu cyflwyno i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

5. Eir i'r afael â phwyntiau technegol 1 a 2 drwy ddrafftio rheoliad 6 o Reoliadau 2024.

6. Er mwyn mynd i'r afael â phwynt technegol 3 a sicrhau bod y diwygiadau canlyniadol yn yr is-ddeddfwriaeth yn cael effaith o 1 Ebrill 2024, bu'n rhaid ailddatgan y gyfraith fel yr oedd yn gymwys yn union cyn 27 Hydref 2023 mewn un Rhan o Reoliadau 2024, i ddod i rym cyn gynted â phosibl. Yn ogystal, bu'n rhaid nodi'r diwygiadau canlyniadol mewn Rhan arall, a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2024.

7. Mae hwn yn ymarfer cymhleth sy'n gofyn am gwblhau'n brydlon. Wrth benderfynu a ddylid diwygio pob offeryn statudol yr effeithir arno, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried a fyddai peidio â diwygio darpariaethau penodol yn yr is-ddeddfwriaeth y cyfeirir ati yn Rheoliadau 2023 yn cael unrhyw effaith ymarferol o ran darparu ar gyfer canlyniad gwahanol mewn cysylltiad ag

atebolrwydd am ardrethi annomestig, cyn 1 Ebrill 2024. Pan ystyrir nad oes risg sylweddol o effaith o'r fath, ni chaiff y ddarpariaeth ei chywiro gan Reoliadau 2024 a bydd y llyfr statud yn darllen fel y bwriadwyd o 1 Ebrill 2024, pan fydd adrannau perthnasol o Ddeddf 2023 yn cael effaith.

8. Yn unol â'r dull hwn, mae Rheoliadau 2024 yn mynd i'r afael â'r materion sy'n codi o ddod â rheoliadau 2, 4 a 5 o Reoliadau 2023 i rym yn gynamserol. Ni wneir unrhyw newidiadau mewn perthynas â rheoliadau 3 a 6 o Reoliadau 2023, gan nad yw effaith dod â rhai newidiadau canlyniadol i rym cyn 1 Ebrill 2024 yn creu'r perygl o ganlyniad gwahanol na'r hyn a fwriadwyd mewn perthynas ag atebolrwydd trethdalwyr. Ni fu angen ystyried newidiadau mewn perthynas â rheoliad 7 o Reoliadau 2023, gan iddo ddod i rym fel y bwriadwyd.

**Y cefndir deddfwriaethol**

9. Cafodd Deddf 2023 y Cydsyniad Brenhinol ar 26 Hydref 2023. Mae adrannau 1 a 2 o Ddeddf 2023 yn cyflwyno Atodlenni newydd 4ZA a 4ZB i Ddeddf 1988, yn y drefn honno, sy'n ailddatgan (gyda diwygiadau) y darpariaethau presennol mewn perthynas ag atebolrwydd i dalu ardrethi annomestig a rhyddhad rhag ardrethi annomestig ar gyfer eiddo ar restr leol. Daeth y darpariaethau hyn i rym ar yr adeg pan gafodd Deddf 2023 y Cydsyniad Brenhinol, ond nid ydynt yn cael effaith tan 1 Ebrill 2024.

10. Mae Atodlen 4ZA yn ailddatgan darpariaethau ar gyfer hereditamentau a feddiennir ar restr ardrethu leol a nodwyd yn flaenorol yn adrannau 43 a 44 o Ddeddf 1988. Mae Atodlen 4ZB yn ailddatgan darpariaethau ar gyfer hereditamentau heb eu meddiannu ar restr ardrethu leol a nodwyd yn flaenorol yn adrannau 45, 45A a 46 o Ddeddf 1988. Cyfeirir at ddarpariaethau ar gyfer atebolrwydd a rhyddhadau mewn sawl man mewn is-ddeddfwriaeth.

11. Daeth Rheoliadau 2023 i rym ar 27 Hydref 2023 ac fe wnaethant ddarparu ar gyfer diwygiadau canlyniadol i bum set o Reoliadau, i ddiweddaru cyfeiriadau at ddarpariaethau yn Neddf 1988 a oedd wedi eu hailddatgan neu eu diwygio gan Ddeddf 2023. Ni wnaeth rheoliadau 2, 4 a 5 o Reoliadau 2023 ddatgan yn benodol eu bod yn cael effaith o 1 Ebrill 2024, yn unol â phryd y mae’r newidiadau perthnasol yn Neddf 2023 hefyd yn cael effaith.

12. Yn ogystal, diwygir Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Darpariaethau Amrywiol) 1990 ("Rheoliadau 1990") o ganlyniad i'r ffaith bod darpariaethau penodol yn Neddf 1988 wedi eu diddymu gan Ddeddf Ardrethu (Eiddo Gwag) 2007 ("Deddf 2007") a Deddf Lleoliaeth 2011 ("Deddf 2011").

13. Gwneir y darpariaethau o sylwedd yn Rheoliadau 2024 fel y'u rhestrir yng ngholofn gyntaf y tabl isod o dan y pwerau galluogi a nodir yn yr ail golofn:

| Rheoliad | Pwerau galluogi |
|---|---|
| 2 | Rhoddwyd y pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraffau 1 a 2(2)(a) o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 ac fe'u trosglwyddwyd, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Trosglwyddwyd hwy wedi hynny i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. |
| 3 | Rhoddwyd y pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraff 2(ga) o Atodlen 9 i Ddeddf 1988. Trosglwyddwyd hwy, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac yna i Weinidogion Cymru, fel yr uchod. |
| 4 | Rhoddwyd y pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 43(4B)(b) a 44(9)(b) o Ddeddf 1988 ac fe'u trosglwyddwyd i Weinidogion Cymru, fel yr uchod. |
| 5, 6, 8 a 9 | Rhoddwyd y pwerau i Weinidogion Cymru gan adran 17(2) o Ddeddf 2023. |
| 7 | Rhoddwyd y pwerau i Weinidogion Cymru gan adran 17(2) o Ddeddf 2023, paragraff 8(1) a (4)(b) o Atodlen 1 i Ddeddf 2007 ac adran 236(1) o Ddeddf 2011. |

14. Mae paragraff 8(1) a (4)(b) o Atodlen 1 i Ddeddf 2007 yn rhoi pŵer gwneud gorchmynion i Weinidogion Cymru ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad y mae paragraff 8 yn gymwys iddo i'r graddau sy'n ymddangos yn angenrheidiol neu'n hwylus o ganlyniad i'r darpariaethau yn Neddf 2007. Mae adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu pan fo gan Weinidogion Cymru bŵer neu ddyletswydd i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurf rheoliadau, rheolau neu orchymyn a wneir drwy offeryn statudol, y cânt arfer y pŵer neu'r ddyletswydd drwy wneud yr is-ddeddfwriaeth ar unrhyw un o'r ffurfiau eraill hynny drwy offeryn statudol. Mae'r pŵer gwneud gorchmynion ym mharagraff 8(1) o Atodlen 1 i Ddeddf 2007 yn cael ei arfer ar ffurf rheoliadau, o gofio bod y pwerau galluogi eraill y dibynnir arnynt i wneud Rheoliadau 2024 yn ei gwneud yn ofynnol i'r darpariaethau hynny gael eu gwneud mewn rheoliadau.

15. Mae Rheoliadau 2024 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

**Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

16. Mae Rhan 2 o Reoliadau 2024 yn hepgor darpariaethau penodol yn rheoliadau 2 a 4, a rheoliad 5 o Reoliadau 2023 ac yn ailddatgan cyfeiriadau at adrannau 43, 44, 45 a 45A o Ddeddf 1988 mewn darpariaethau yn yr is-ddeddfwriaeth a ganlyn o ran Cymru fel yr oeddent yn gymwys yn union cyn i reoliadau 2, 4 a 5 ddod i rym:

- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989 ("Rheoliadau 1989");
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017");
- Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017 ("Gorchymyn 2017").

17. Mae Rhan 3 o Reoliadau 2024 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau 1989, Rheoliadau 1990, Rheoliadau 2017 a Gorchymyn 2017 yn dilyn Deddf 2023, drwy fewnosod cyfeiriadau at ddarpariaethau sydd wedi eu hailddatgan yn Atodlenni 4ZA a 4ZB i Ddeddf 1988. Mae Rheoliadau 2024 hefyd yn rhoi cyfle i wneud y diwygiad canlyniadol sy'n weddill i reoliad 3(7) o Reoliadau 1990, drwy hepgor cyfeiriadau at adrannau 45(6) a 47(2)(a) o Ddeddf 1988 a ddiddymwyd gan Ddeddfau 2007 a 2011, yn y drefn honno.

18. Caiff copïau o Reoliadau 2024 eu hanfon at holl dderbynwyr hysbys Rheoliadau 2023 yn rhad ac am ddim er mwyn sicrhau nad yw defnyddwyr y mae angen copi arnynt yn cael eu rhoi o dan anfantais drwy orfod talu amdano. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw effeithiau andwyol sy'n deillio o'r hepgoriadau yn Rheoliadau 2023. Byddai unrhyw effeithiau o'r fath wedi cael eu dwyn i sylw Llywodraeth Cymru gan randdeiliaid, yn enwedig awdurdodau bilio lleol.

**Ymgynghori**

19. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad. Mae Rheoliadau 2024 yn hanfodol ac mae angen eu gwneud ar frys, er mwyn sicrhau bod yr is-ddeddfwriaeth a restrir uchod yn dal yn effeithiol a bod bwriad y polisi yn cael ei gadw, o ran Cymru.

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)**

20. Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer Rheoliadau 2024. Effaith Rheoliadau 2024 yw cadw'r sefyllfa bolisi bresennol drwy sicrhau bod yr is-ddeddfwriaeth y maent yn ei diwygio yn dal yn effeithiol ac nad yw'n cael unrhyw effeithiau eraill. Mae hyn yn cydymffurfio â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Gwnaed yr Offeryn Statudol hwn o ganlyniad i ddiffyg yn O.S. 2023/1154 (Cy. 199) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 37 (Cy. 12)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn hepgor darpariaethau penodol yn rheoliadau 2 a 4, a rheoliad 5 o Reoliadau Deddf Ardrethu Annomestig 2023 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023") ac yn gwneud diwygiadau i wahanol offerynnau statudol.

Mae rheoliadau 2, 4 a 5 o Reoliadau 2023 yn gwneud newidiadau i is-ddeddfwriaeth benodol o ran Cymru o ganlyniad i Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023 ("Deddf 2023"). Mae adrannau 1 a 2 o Ddeddf 2023 yn diddymu darpariaethau penodol yn Rhan 3 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") ac yn ailddeddfu'r darpariaethau hynny yn Atodlenni newydd 4ZA a 4ZB i Ddeddf 1988.

Daeth rheoliadau 2, 4 a 5 o Reoliadau 2023 i rym ar 27 Hydref 2023 ond ni wnaethant ddatgan yn benodol eu bod yn cael effaith o 1 Ebrill 2024, yn unol â phryd y mae'r newidiadau perthnasol yn Neddf 2023 hefyd yn cael effaith.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn hepgor darpariaethau penodol yn rheoliadau 2 a 4, a rheoliad 5 o Reoliadau 2023 ac yn ailddatgan darpariaethau o'r offerynnau statudol a ganlyn o ran Cymru ("yr Is-ddeddfwriaeth") fel yr oeddent yn gymwys yn union cyn i reoliadau 2, 4 a 5 ddod i rym:

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989;
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017;
- Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau canlyniadol i'r Is-ddeddfwriaeth a Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Darpariaethau Amrywiol) 1990 ("Rheoliadau 1990") i adlewyrchu'r darpariaethau a ailddeddfwyd yn Atodlenni 4ZA a 4ZB i Ddeddf 1988. Yn achos Rheoliadau 1990, hepgorir cyfeiriadau at adrannau 45(6) a 47(2)(a) o Ddeddf 1988 gan fod y darpariaethau hyn wedi eu diddymu gan Ddeddfau cynharach.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r offeryn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Gwnaed yr Offeryn Statudol hwn o ganlyniad i ddiffyg yn O.S. 2023/1154 (Cy. 199) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2024 Rhif 37 (Cy. 12)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

# Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *15 Ionawr 2024* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *17 Ionawr 2024* |
| *Yn dod i rym* | *19 Ionawr 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 43(4B)(b) a 44(9)(b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ("Deddf 1988") ac a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraffau 1 a 2(2)(a) ac (ga) o Atodlen 9 i'r Ddeddf(**2**) honno, ac a freiniwyd bellach ynddynt

(**1**) 1988 p. 41. Gweler adran 146(6) am y diffiniad o "prescribed". Mewnosodwyd is-adran (4B) yn adran 43 gan adran 61(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26) ("Deddf 2003"). Mewnosodwyd is-adran (9) yn adran 44 gan adran 61(5) o Ddeddf 2003. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) Diwygiwyd paragraff 1 gan baragraff 89(2) o Atodlen 13 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 (p. 15). Mewnosodwyd paragraff 2(2)(ga) gan baragraff 44(2) o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

hwy(1), a thrwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan baragraff 8(1) a (4)(b) o Atodlen 1 i Ddeddf Ardrethu (Eiddo Gwag) 2007(2), adran 236(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011(3) ac adran 17(2) o Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023(4).

## RHAN 1

## Cyflwyniad

### Enwi, cymhwyso a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw Rhannau 1 a 2 i rym ar 19 Ionawr 2024.

(4) Daw Rhan 3 i rym ar 1 Ebrill 2024.

## RHAN 2

## Diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n dod i rym ar 19 Ionawr 2024

### Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989

**2.** Yn rheoliad 3(1) (dehongli) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989(5), yn y diffiniad o "the amount payable", yn is-baragraff (a), yn lle "paragraphs 1 to 7, and 10 of Schedule 4ZA or paragraphs 1 to 3 of Schedule 4ZB to" rhodder "section 43(4) to (6) or 45(4) to (6) of".

---

(1) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru wedi hynny yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(2) 2007 p. 9. Caniateir arfer y pŵer i wneud gorchymyn o dan baragraff 8(1) o Ddeddf Ardrethu (Eiddo Gwag) 2007 er mwyn gwneud rheoliadau yn rhinwedd adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4).

(3) 2011 p. 20. Gweler adran 236(2)(a)(ii) am y diffiniad o "appropriate authority".

(4) 2023 p. 53. Gweler adran 17(3) am y diffiniad o "the appropriate national authority".

(5) O.S. 1989/1058; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1991/141, O.S. 1993/616 ac O.S. 2023/1154 (Cy. 199).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017**

**3.**—(1) Mae Atodlen 1 (materion i'w cynnwys mewn hysbysiadau galw am dalu) i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017(**1**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 4—

(a) yn lle "rheoliadau o dan baragraff 1(2)(b) a 3(9) o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988 mewn grym neu pan fyddant mewn grym" rhodder "gorchymyn o dan adran 45(4A) o Ddeddf 1988 mewn grym neu pan fydd mewn grym";

(b) yn lle "rheoliadau o gymharu â'r swm pe bai paragraff 1(1)(b) o Atodlen 4ZB i" rhodder "gorchymyn o gymharu â'r swm pe bai adran 45(4) o".

(3) Ym mharagraff 5—

(a) yn lle "paragraff 2 o Atodlen 4ZB i" rhodder "adran 45A o";

(b) yn lle "paragraff 1(1)(b) o Atodlen 4ZB i" rhodder "adran 45(4) o".

(4) Ym mharagraff 6—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle "baragraff 2(1) neu 4(1) o Atodlen 4ZA i" rhodder "adran 43(4A)(b) neu (5) o";

(b) yn is-baragraff (b), yn lle "baragraff 10(2) o Atodlen 4ZA i" rhodder "adran 44(2) a (2A) o";

(c) yn lle "paragraff 1 o Atodlen 4ZA, heb ei addasu, ac (i'r graddau y bo'n berthnasol) baragraff 10(2) o Atodlen 4ZA heb ei amnewid" rhodder "adran 43(4), heb ei haddasu, ac (i'r graddau y bo'n berthnasol) adran 44(2) heb ei hamnewid".

**Diwygio Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017**

**4.**—(1) Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2 (dehongli), yn y diffiniad o "hereditament a eithrir", ym mharagraff (c), yn lle

---

(**1**) O.S. 2017/113 (Cy. 39), a ddiwygiwyd gan O.S. 2023/1154 (Cy. 199); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) O.S. 2017/1229 (Cy. 293), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/1192 (Cy. 243) ac O.S. 2023/1154 (Cy. 199); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"baragraff 2(2)(a) neu (b) o Atodlen 4ZA i" rhodder "baragraff (a) neu (b) o adran 43(6) o".

(3) Yn erthygl 5 (uchafswm gwerth ardrethol ar gyfer rhyddhad ardrethi), yn lle "paragraff 4(2)(b)(i) o Atodlen 4ZA i" rhodder "adran 43(4B)(b)(i) o".

(4) Yn erthygl 6 (amodau rhyddhad), yn lle "paragraff 4(2)(b)(ii) o Atodlen 4ZA i" rhodder "adran 43(4B)(b)(ii) o".

(5) Yn erthygl 10 (swm E), yn lle "paragraff 10(6) o Atodlen 4ZA i" rhodder "adran 44(9) o".

**Diwygio Rheoliadau Deddf Ardrethu Annomestig 2023 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2023**

**5.**—(1) Mae Rheoliadau Deddf Ardrethu Annomestig 2023 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2023([1]) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(2) (diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989), hepgorer is-baragraff (a).

(3) Yn rheoliad 4 (diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017)—

(a) hepgorer paragraff (2);

(b) hepgorer paragraff (3);

(c) hepgorer is-baragraffau (a), (b) a (d) o baragraff (4).

(4) Hepgorer rheoliad 5 (diwygio Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017).

## RHAN 3

## Diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2024

**Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989**

**6.** Yn rheoliad 3(1) (dehongli) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestrau Lleol) 1989, yn y diffiniad o "the amount payable", yn is-baragraff (a), yn lle "section 43(4) to (6) or 45(4) to (6) of" rhodder "any provision of or made under Schedule 4ZA or Schedule 4ZB to".

(1) O.S. 2023/1154 (Cy. 199).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Darpariaethau Amrywiol) 1990**

**7.** Yn rheoliad 3(7) (cydberchnogion a chydfeddianwyr) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Darpariaethau Amrywiol) 1990(**1**), yn lle "section 43(6), 45(6) and 47(2)(a) of" rhodder "paragraph 2(2) of Schedule 4ZA to".

**Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017**

**8.**—(1) Mae Atodlen 1 (materion i'w cynnwys mewn hysbysiadau galw am dalu) i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 4—

(a) yn lle "gorchymyn o dan adran 45(4A) o Ddeddf 1988 mewn grym neu pan fydd mewn grym" rhodder "rheoliadau o dan baragraffau 1(2)(b) a 3(9) o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988 mewn grym neu pan fyddant mewn grym";

(b) yn lle "gorchymyn o gymharu â'r swm pe bai adran 45(4) o" rhodder "rheoliadau o gymharu â'r swm pe bai paragraff 1(1)(b) o Atodlen 4ZB i".

(3) Ym mharagraff 5—

(a) yn lle "adran 45A o" rhodder "paragraff 2 o Atodlen 4ZB i";

(b) yn lle "adran 45(4) o" rhodder "paragraff 1(1)(b) o Atodlen 4ZB i".

(4) Ym mharagraff 6—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle "adran 43(4A)(b) neu (5) o" rhodder "baragraff 2(1) neu 4(1) o Atodlen 4ZA i";

(b) yn is-baragraff (b), yn lle "adran 44(2) a (2A) o" rhodder "baragraff 10(2) o Atodlen 4ZA i";

(c) yn lle "adran 43(4), heb ei haddasu, ac (i'r graddau y bo'n berthnasol) adran 44(2) heb ei hamnewid" rhodder "paragraff 1 o Atodlen 4ZA, heb ei addasu, ac (i'r graddau y bo'n berthnasol) baragraff 10(2) o Atodlen 4ZA heb ei amnewid".

---

(**1**) O.S. 1990/145, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017**

**9.**—(1) Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2 (dehongli), yn y diffiniad o "hereditament a eithrir", ym mharagraff (c), yn lle "baragraff (a) neu (b) o adran 43(6) o" rhodder "baragraff 2(2)(a) neu (b) o Atodlen 4ZA i".

(3) Yn erthygl 5 (uchafswm gwerth ardrethol ar gyfer rhyddhad ardrethi), yn lle "adran 43(4B)(b)(i) o" rhodder "paragraff 4(2)(b)(i) o Atodlen 4ZA i".

(4) Yn erthygl 6 (amodau rhyddhad), yn lle "adran 43(4B)(b)(ii) o" rhodder "paragraff 4(2)(b)(ii) o Atodlen 4ZA i".

(5) Yn erthygl 10 (swm E), yn lle "adran 44(9) o" rhodder "paragraff 10(6) o Atodlen 4ZA i".

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
15 Ionawr 2024

Eitem 2.4

Archwilio Cymru
Audit Wales

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

Trwy e-bost

**Cyfeirnod:** KC24001/AC404/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 1 Chwefror 2024

Annwyl Peredur

## Gwaith Craffu Blynyddol y Pwyllgor Cyllid ar Swyddfa Archwilio Cymru

Ymhellach i'ch adroddiad - *Gwaith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru* - rydym yn ysgrifennu atoch i nodi ein hymatebion i argymhellion y Pwyllgor, yr ydym yn eu derbyn i gyd.

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23**

**Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi manylion am sut mae'n gwerthuso'r camau a gymerir i wella perfformiad mewn perthynas ag ymgysylltu â gweithwyr a phrofiad y gweithwyr.**

Rydym wedi cymryd amrywiaeth o gamau i wella ymgysylltiad a phrofiad gweithwyr, gan gynnwys nodyn cyfathrebu misol gan yr uwch dîm arwain; cylchlythyr staff; sioeau teithiol personol bob chwe mis gan yr uwch dîm arwain ac aelodau'r Bwrdd; a buddsoddiad sylweddol mewn Rhaglen Datblygu Rheolwyr Pobl.

Yn dilyn canlyniadau Arolwg Pobl 2022, ymrwymodd y Tîm Arwain Gweithredol i gynyddu ei amlygrwydd ac amlygrwydd y Bwrdd. Yn ystod 2023 cwblhawyd dwy rownd o Sioeau Teithiol yr Arweinwyr ym mhob un o safleoedd swyddfeydd Archwilio Cymru ac mae trydydd un wedi'i gynllunio ar gyfer gwanwyn 2024 yn ogystal â digwyddiad i bob aelod o staff.  Aseswyd gwerthusiad o effaith ym mis Medi 2023, gan ddefnyddio'r cwestiynau ymgysylltu craidd o'r Arolwg Pobl, a gwelwyd gwelliant.

Yn ogystal, mewn ymateb i adborth gan staff, mae'r Tîm Arwain Gweithredol bellach yn dosbarthu nodyn briffio misol i'r holl staff. Gwnaed cryn tipyn o waith gan y Tîm Cyfathrebu i wella trefniadau cyfathrebu mewnol eraill gydag adolygiad llawn ac adnewyddu'r fewnrwyd. Derbyniwyd hyn yn gadarnhaol gan y staff gyda lefelau uchel o foddhad. Rhan fawr o'r adnewyddu fu cynyddu amlygrwydd y Bwrdd a mynediad at bapurau. Roedd hwn yn gais uniongyrchol gan staff ac

mae'n cefnogi ein huchelgais i weithio mewn modd agored a thryloyw. Fel y manylwyd yn ein hymateb i Argymhelliad 9, rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn natblygiad sgiliau rheoli pobl ar draws y sefydliad.

Y brif ffordd yr ydym yn asesu effaith y camau hyn ar ymgysylltu a phrofiad gweithwyr yw drwy ein Harolwg Ymgysylltu â Gweithwyr blynyddol. Hyd at 2022 roeddem yn defnyddio Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil (CSPS). Cyflwynwyd Arolwg Ymgysylltu â Gweithwyr byrrach, mwy penodol a hygyrch yn 2023. Cododd y gyfradd cyfranogi yn 2023 i 82% o 70% yn y flwyddyn flaenorol. Gan ddefnyddio'r un cwestiynau ag yn y CSPS, cododd ein mynegai ymgysylltiad gweithwyr cyffredinol i 63% o 60% yn 2022.

**Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu gwybodaeth am yr adborth a gafwyd gan staff am adleoli ei swyddfa yng Nghaerdydd a sut y cafodd y newid hwnnw ei reoli.**

Roedd adleoli ein swyddfa yng Nghaerdydd i Gwr y Ddinas yn llwyddiannus. Roedd arolwg staff ddiwedd mis Mai yn hynod gadarnhaol ynghylch y lle newydd cyfoes, hyblyg sy'n cefnogi anghenion busnes a lles staff. Mae'r staff yn defnyddio'r swyddfa newydd yn rheolaidd, ac mae lefelau defnyddio’r swyddfa yn dangos bod maint a dyluniad y swyddfa yn bodloni anghenion y staff.

Y prif beth wnaethom ddysgu ar ôl symud oedd pwysigrwydd ymgysylltu â staff drwyddi draw. Gwnaethom fwrw ymlaen â hyn wrth adleoli ein swyddfa yn y gogledd, ac mae'r adborth hefyd wedi bod yn hynod gadarnhaol. Bydd y dull yn cael ei ailadrodd ar gyfer unrhyw newidiadau i'n swyddfa yn y gorllewin.

**Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu manylion am ganlyniadau ei strategaeth lles staff, gan gynnwys pryd y mae disgwyl i effaith y strategaeth gael ei hadlewyrchu yng nghanlyniadau'r arolwg staff.**

Mae ein strategaeth lles wedi bod ar waith ers 18 mis ac mae wedi cael ei hadolygu'n ddiweddar. Mae gennym 17 o Hyrwyddwyr Lles ar draws Archwilio Cymru sydd wedi’u dosbarthu ymhlith timau a lleoliadau. Mae canfyddiadau cychwynnol yr adolygiad o'r strategaeth yn dangos bod 75% o'r rhai a ymatebodd yn gwybod pwy oedd eu Hyrwyddwr Lles a'u rôl. Canfuom hefyd fod 86% yn gwybod am ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr a sut i gael mynediad ati a bod 88% yn credu bod Archwilio Cymru yn blaenoriaethu eu lles. Fel y manylwyd yn ein hymateb i Argymhelliad 9, mae canlyniadau cadarnhaol mewn perthynas â lles eisoes yn cael eu gweld mewn ymatebion i'n Harolwg Ymgysylltu â Gweithwyr blynyddol.

**Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi manylion am sut y mae'n bwriadu cofnodi adborth rhanddeiliaid er mwyn sicrhau cymhariaeth ystyrlon o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu mwy o wybodaeth am y canlynol:**

- **sut y mae'n ailflaenoriaethu adnoddau'n fewnol i fodloni ei derfynau amser statudol yn y tymor byr;**
- **yr hyn y mae'n ei wneud yn y tymor hir i oresgyn risgiau strategol methu terfynau amser statudol a achosir gan bryderon adnoddau a staffio; a**
- **cynnydd wrth weithredu safonau ansawdd archwilio newydd a sut y mae'n cael ei asesu.**

Cyn 2023, casglwyd yr adborth rhanddeiliaid sy'n llywio ein dangosyddion perfformiad allweddol yn flynyddol trwy ymgysylltu'n uniongyrchol rhwng uwch staff Archwilio Cymru a'r rhai mewn cyrff archwiliedig. Yn 2023, cynhaliwyd ymchwil rhanddeiliaid am y tro cyntaf gan sefydliad trydydd parti annibynnol. Yn wahanol i'r dull blaenorol, roedd hyn yn caniatáu i ymatebwyr aros yn ddienw pe baent yn dymuno, ac felly'n mynd i'r afael ag unrhyw bryder na fyddai rhai rhanddeiliaid o bosibl yn siarad mor agored wyneb yn wyneb â'u harchwilwyr. Ein bwriad yw ailadrodd yr ymarfer ymchwil a gasglwyd yn annibynnol yn 2025. Yn 2024, byddwn yn casglu adborth gan ddefnyddio ein dull gweithredu blaenorol. Bydd hyn yn rhoi adborth blynyddol inni yn erbyn ein cwestiynau dangosyddion perfformiad allweddol a mesurau uniongyrchol cymaradwy bob yn ail flwyddyn, wedi'u cydbwyso yn erbyn cost.

Rydym wedi ailflaenoriaethu adnoddau yn fewnol i'n helpu i fodloni terfynau amser statudol ar gyfer ein gwaith archwilio cyfrifon yn y tymor byr.  Mewn rhai achosion, mae hyn wedi golygu gwthio terfynau amser yn ôl ar gyfer gwaith archwilio arall. Rydym hefyd wedi cymryd camau i leihau amser nad yw'n daladwy lle bo hynny'n briodol, ac i gynnig goramser â thâl i staff pan fyddant wedi mynegi diddordeb mewn gwneud hyn. Mae cydweithwyr o'n meysydd gwasanaeth corfforaethol ac archwilio perfformiad wedi darparu cymorth pan fo hynny'n bosibl. Rydym hefyd wedi gwneud gwaith i sefydlu data darparu a galw manwl ar gyfer ein holl waith archwilio. Bydd y cynllun gweithlu sy'n deillio o hyn yn helpu i sicrhau bod gennym y nifer cywir o bobl ar waith a'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth archwilio cyhoeddus cynaliadwy yn y tymor canolig. Fel y manylwyd yn ein hymateb i Argymhelliad 6, rydym wedi adolygu ein cynlluniau hyfforddeion, i raddau helaeth i helpu i fynd i'r afael ag anghenion adnoddau ar unwaith ac yn y tymor hwy.

O ran ein cynnydd wrth weithredu'r safon archwilio ddiwygiedig 315 ar gyfer ein gwaith cyfrifon, dylid darllen yr ymateb hwn ar y cyd â'n hymateb i Argymhelliad 20. Ar ôl cwblhau archwiliadau 2022-23 dros yr ychydig fisoedd nesaf, byddwn yn cynnal adolygiad o'n gweithrediad o'r safon ddiwygiedig i sefydlu a oes meysydd effeithlonrwydd yn y dull archwilio wrth symud ymlaen. Rydym hefyd yn aros am

ganlyniad ein hadolygiadau ansawdd allanol a fydd yn rhoi sylwadau ar ein gweithrediad o'r safon archwilio newydd.

O ran ein gwaith archwilio perfformiad, mae mabwysiadu safonau INTOSAI wedi'i gefnogi gan ddatblygu canllawiau archwilydd newydd a hyfforddiant cysylltiedig i staff. Bydd ein hadolygiadau ansawdd allanol blynyddol yn ddiweddarach eleni yn asesu cynnydd wrth weithredu'r safonau newydd. Mae ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2023, 'Gwella Ymddiriedaeth mewn Archwilio', yn nodi ein trefniadau a'n mentrau diweddaraf i ymateb i'r agenda ansawdd archwilio newidiol ynghyd â gwybodaeth am ein canlyniadau monitro ansawdd.

**Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu manylion am gyfraddau trosiant staff a sut y maent yn cymharu o flwyddyn i flwyddyn.**

Mae'r wybodaeth hon ar gael yn ein Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon. Nodir y cyfraddau ers 2019-20 isod:

- 2019-20 - 9.2%
- 2020-21 - 14.3%
- 2021-22 – 10.1%
- 2022-23 – 10.6%
- 2023-24 hyd yn hyn – 17.7%

Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys pob ymadawiad, gan gynnwys y rhai sydd â chontractau cyfnod penodol yn dod i ben.

**Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu ar yr adolygiad o gynllun hyfforddeion Archwilio Cymru a'i effaith ar gynllunio'r gweithlu.**

Mae'r adolygiad o'n cynllun hyfforddeion yn parhau; fodd bynnag, rydym eisoes yn gweithredu rhai newidiadau i'r cynllun a nodwyd yn gynnar. Mae'r rhain yn bennaf yn ymwneud ag amserlennu gweithgareddau recriwtio, dyddiadau arholiadau proffesiynol a secondiadau allanol. Bwriad y newidiadau yw cynyddu nifer a chryfder yr ymgeiswyr i'r cynllun a darparu'r profiad gorau i hyfforddeion yn ystod eu contractau. Yn ddiweddar, gwnaethom gynnig rolau parhaol i lawer o'n hyfforddeion blwyddyn olaf, cyn eu harholiadau terfynol ond yn amodol ar eu pasio. Dyma'r tro cyntaf i ni weithredu’r dull hwn, a gobeithiwn y bydd yn lliniaru effaith recriwtio ymosodol staff newydd gymhwyso a ddefnyddir gan gyflogwyr eraill.

Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i adolygu ein darpariaeth o brofiad i hyfforddeion ar draws ein gwaith archwilio ariannol ac archwilio perfformiad. Y nod yw datblygu carfannau o hyfforddeion sy'n gallu datblygu eu gyrfaoedd yn Archwilio Cymru ar draws ein hystod o waith archwilio ac adeiladu gweithlu hyblyg gyda'r gallu i ymateb yn gyflym i newidiadau posibl yn y galw yn y dyfodol.

**Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn esbonio pam y mae wedi dychwelyd cyllid a ddyrannwyd ar gyfer y Fenter Twyll Cenedlaethol i Gronfa Gyfunol Cymru.**

Adroddodd ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon danwariant o £102,000 ar gyllid a ddarparwyd ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2023-24. Dychwelwyd hwn i Gronfa Gyfunol Cymru ar ddiwedd y flwyddyn honno ynghyd ag adnoddau eraill heb eu gwario. Roedd hyn yn cynnwys £22,000 yn is na'r disgwyl gan Swyddfa'r Cabinet am ein gwaith Menter Twyll Genedlaethol rheolaidd. Ni ddefnyddiwyd y £80,000 arall gan na chawsom unrhyw ddiddordeb gan awdurdodau lleol i dderbyn cynhyrchion paru data ychwanegol mewn perthynas â chyllid cymorth busnes COVID-19, ac ni aeth ein prosiect arfaethedig ar gofrestru meddygon teulu mor gyflym ag y rhagwelwyd. Y prosiect cofrestru meddygon teulu yw'r pwyslais ar gyfer ein defnydd o'r swm gostyngedig o £45,000 ar gyfer paru data ychwanegol sydd wedi'i gynnwys yn ein Hamcangyfrif 2023-24.

**Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effaith y mae lefelau uchel o drosiant staff yn ei chael ar ei allu i fodloni terfynau amser statudol ar gyfer gwaith archwilio a'r hyn y mae'n ei wneud i liniaru'r heriau hyn.**

Mae'r lefelau uchel o drosiant a brofwyd ar draws Archwilio Cymru wedi cael effaith sylweddol ar ein gallu i fodloni terfynau amser archwilio statudol. Yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23, roedd trosiant staff cymwys CCAB yn 23.1% o'i gymharu â 10.8% yn y flwyddyn flaenorol. Mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru, ar gyfer cyfrifon 2022-23, rydym yn gweithio i derfynau amser ychydig yn hwyrach nag oedd yn hanesyddol yn wir er ein bod yn bwriadu dychwelyd i amserlenni cyn Covid dros y blynyddoedd nesaf.

Mae ein hadroddiad dangosyddion perfformiad allweddol statudol ddiwedd mis Rhagfyr 2023 yn dangos bod 92.5% o gyfrifon 2022-23 sydd wedi'u hardystio hyd at y pwynt hwnnw wedi cyflawni'r targedau diwygiedig hyn. Gyda 18 o gyfrifon pellach i'w hadrodd arnynt yn y chwarter a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y gyfradd gwblhau gyffredinol ar gyfer y flwyddyn gyfan yn is.

**Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:**

- **y gweithgareddau y mae'n eu gwneud i wella lles staff a sut yr adlewyrchir hyn yn yr arolwg staff;**
- **sut y mae'n darparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus i staff; a**
- **sut y mae ei arolwg staff newydd yn cymharu â'r dull gweithredu blaenorol, a oedd yn defnyddio Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil.**

Lles staff

- Rydym yn darparu hyfforddiant i reolwyr ar reoli lles gyda'u timau, wedi cyflwyno gwiriadau lles i'r polisi absenoldeb salwch, nodi a hyfforddi 17 hyrwyddwr llesiant sy'n darparu diweddariadau rheolaidd i'w timau, cyfathrebu â staff ar ddigwyddiadau a mentrau llesiant, cyfathrebu a hyrwyddo'r polisi Gweithio'n Gallach a pharatoi ar gyfer peilot o oriau gwaith cywasgedig. Canfu'r Arolwg Ymgysylltu â Gweithwyr diweddar (23 Tachwedd) fod 89% o staff yn credu bod eu rheolwr llinell wir yn pryderu am eu lles, mae 87% yn credu eu bod yn gallu trefnu amser i ffwrdd o'r gwaith pan fydd angen iddynt wneud hynny ac mae 78% yn credu eu bod yn cael eu cefnogi'n wirioneddol os ydynt yn dewis defnyddio trefniadau gweithio hyblyg.

Hyfforddiant a DPP

- Mae anghenion hyfforddi a datblygiad proffesiynol yn cael eu nodi drwy drafodaethau datblygu 1 i 1 gyda rheolwyr yn ogystal â hyfforddiant gorfodol i bawb, neu grwpiau o staff Archwilio Cymru. Mae ein tîm Datblygu ac Arweiniad Archwilio yn asesu ac yn darparu hyfforddiant a datblygiad yn rheolaidd ar agweddau technegol archwilio, tra bod y tîm AD yn cefnogi hyfforddiant sgiliau craidd, rheolwr a datblygu arweinyddiaeth. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae bron pob rheolwr wedi mynychu rhaglen Datblygu Rheolwr Pobl ac mae gwaith ar y gweill, mewn cydweithrediad ag Audit Scotland, i sefydlu rhaglen datblygu arweinyddiaeth. Darperir hyfforddiant arall drwy ddarparwyr hyfforddiant allanol sy'n cefnogi'r sefydliad gyda'r rhaglen hyfforddeion a hyfforddiant penodol fel hyfforddi, recriwtio ac ati. Yn ogystal, mae'r tîm AD yn darparu sesiynau pwrpasol i dimau a sesiynau 'dysgu dros ginio' byr ar bynciau penodol yn ogystal â datblygiad ac arweiniad penodol unigol os gofynnir amdano.

Arolwg staff

- Mae ein dull newydd o gyflawni ein harolwg staff yn ymgorffori'r cwestiynau allweddol ynghylch ymgysylltu â gweithwyr a ddefnyddir yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil ond mae'n arolwg llawer mwy penodol, byrrach, mwy craff a chyflymach i'w gwblhau. Gan ei fod yn cael ei ddarparu ar blatfform sy'n cael ei gynnal, mae gennym fynediad ar unwaith i'r data a gallwn olrhain cynnydd wrth redeg yr arolwg. Mae hyn yn golygu y gallwn ddadansoddi'r data yn gyflymach, rhannu'r canfyddiadau ar unwaith wedi i'r arolwg gau ac felly'n gallu gweithredu mewn modd llawer mwy ymatebol. Mae'r platfform yn darparu llawer mwy o ronynnau data fel bod gan Gyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth eu hadroddiadau personol eu hunain ar gyfer eu timau, gan alluogi camau gweithredu llawer mwy lleol a phenodol i'w nodi a'u gweithredu.

**Amcangyfrif 2024-25**

**Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn newid cyflwyniad Amcangyfrifon yn y dyfodol er mwyn egluro cyfanswm gwerth cyllid Cronfa Gyfunol Cymru a gwerth newidiadau i'r cyllid hwnnw drwy wneud y canlynol:**

- **rhoi manylion am gynnydd a gostyngiadau mewn llinellau cyllideb ar wahân;**
- **pennu'r maes cyllideb y mae newidiadau yn ymwneud ag ef a'r rhesymau dros y newid; ac**
- **egluro'r rhaniad rhwng y gwaith a ariennir gan Gronfa Gyfunol Cymru a'r gwaith a ariennir o ffioedd.**

Ceisiodd ein Hamcangyfrif ar gyfer 2024-25 ymateb i argymhellion blaenorol y Pwyllgor ar lefel y manylion sydd eu hangen yn y ddogfen.

Byddwn yn adolygu fformat Amcangyfrif 2025-26 ymhellach, mewn ymgynghoriad ag ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor, i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn.

**Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi gwybodaeth am y £522,000 ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod yn Arddangosyn 1 o'i wybodaeth ategol ac yn cynnwys dadansoddiad o'r ffigur hwn yn elfennau cyfansoddol ei Amcangyfrif.**

Mae'r gostyngiad o £522,000 mewn symudiadau nad yw'n arian parod rhwng 2023-24 a 2024-25 yn cynnwys y canlynol:

| | |
|---|---|
| Dibrisiant a Llog | £4k (Cymhwysiad IFRS16) |
| Taliadau rhent prydles | (£176k) (Cymhwysiad IFRS16) |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio | (£350k) (Mantolen) |
| **Cyfanswm** | **(£522k)** |

**Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn cadarnhau bod cyllid ar gyfer dadfeiliadau yn 2023-24 yn daliad untro a'i fod yn rhoi rhagor o wybodaeth am ryngweithiad y newid o flwyddyn i flwyddyn â symudiadau mewn cyfalaf gweithio a'r newid cyffredinol yn y newid o flwyddyn i flwyddyn i gyfanswm y cyllid sydd i'w ddarparu o Gronfa Gyfunol Cymru, gan gyfeirio'n benodol at y tabl "Cyllideb refeniw 2024-25" yn yr atodiadau i'w wybodaeth ategol.**

Mae'r gostyngiad o £350,000 yn y lwfans ar gyfer symudiadau cyfalaf gweithio ar gyfer 2024-25 yn gysylltiedig â'r cynnydd yn y lwfans ar gyfer 2023-24 oherwydd y defnydd disgwyliedig o'r ddarpariaeth a neilltuwyd yn y blynyddoedd blaenorol ar gyfer dadfeiliadau ar swyddfa Heol y Gadeirlan. Er bod hwn yn addasiad 'untro' sy'n benodol i'r amgylchiadau hynny, efallai y bydd addasiadau o'r fath yn y dyfodol os bydd angen defnyddio darpariaethau sylweddol. Mae hyn o ganlyniad i'n trefn ariannu benodol lle na ellir cadw balansau arian parod i gefnogi

darpariaethau ac yn lle hynny mae'n rhaid eu dychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru ar ddiwedd y flwyddyn.

**Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn cynnwys rhagor o wybodaeth am symudiadau cyfalaf gweithio mewn Amcangyfrifon yn y dyfodol, gan gynnwys nodi eu diben a'r hyn y mae pob symudiad yn ymwneud ag ef.**

Mae symudiadau cyfalaf gweithio yn cynnwys newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yng ngwerth dyledwyr, credydwyr a darpariaethau. Nid yw'n bosibl amcangyfrif y newidiadau hyn ar yr adeg y paratowyd yr Amcangyfrif h.y. 17 mis cyn diwedd y flwyddyn ganlynol. Yn ogystal â'r math o rwymedigaethau cytundebol allanol sy'n nodweddiadol o unrhyw sefydliad cyhoeddus, mae Archwilio Cymru yn derbyn taliadau gan dros 850 o gyrff sy'n cael eu harchwilio fel mater o drefn, ac o bosibl yn gwneud ad-daliadau iddynt. Bydd elfen sylweddol o'r addasiad cyfalaf gweithio yn adlewyrchu cydbwysedd y perthnasoedd dyledwr/credydwr hyn ar un pwynt mewn amser ar ddiwedd y flwyddyn.

Lle bwriedir i ddarpariaethau arwyddocaol gael eu rhyddhau neu eu defnyddio yn ystod y flwyddyn, megis y rhai sy'n ymwneud â dadfeiliadau ystadau, efallai y bydd yn bosibl amcangyfrif yr elfen hon ond am resymau sensitifrwydd masnachol efallai na fyddai'n ddoeth gwneud hynny. Bydd gwybodaeth fanylach am y symudiadau hyn yn cael ei chynnwys mewn Adroddiadau a Chyfrifon Blynyddol yn y dyfodol.

**Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi rhagor o fanylion a dadansoddiad o sut y bydd elfennau penodol o'i gyllid cyfalaf yn cael eu gwario yn 2024-25 a'i fod hefyd yn cynnwys yr un lefel o fanylion ym mhob Amcangyfrif yn y dyfodol.**

Mae ein cyllideb gyfalaf yn gymharol fach (£310,000 yn 2024-25). Y flwyddyn nesaf, mae £110,000 wedi'i gynllunio ar gyfer adnewyddu TG, gyda'r rhan fwyaf o'r gweddill wedi'i glustnodi ar gyfer gwelliannau a chynnal a chadw ar ein hystad ffisegol a buddsoddi mewn datblygu digidol ar gyfer ein systemau archwilio a chorfforaethol. O 2024-25 rydym wedi cadarnhau gyda'r Pwyllgor nad yw cyfansymiau rheoli cyfalaf / refeniw ar wahân yn berthnasol i Archwilio Cymru - ond byddwn yn parhau i ddangos y dadansoddiad arfaethedig ar wahân yn ein Hamcangyfrifon.

**Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymell y darperir rhagor o wybodaeth i esbonio sut mae arian parod sy'n gysylltiedig â'r cyfnod di-rent ar gyfer ei swyddfa newydd yng Nghaerdydd yn cael ei ddefnyddio yn 2024-25, ac i roi sicrwydd na fydd cais am gynnydd mewn arian parod sy'n gysylltiedig â'r cyfnod di-rent yn dod i ben.**

Fel y nodir yn yr Amcangyfrif, rydym wedi lleihau ein gofyniad ariannol ar gyfer 2024-25 i adlewyrchu'r cyfnod di-rent y cytunwyd arno yn y brydles. Felly, bydd cynnydd cysylltiedig mewn gofyniad arian parod pan ddaw'r cyfnod di-rent hwn i ben.

**Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu gwybodaeth am gostau a buddion terfynol y newidiadau i'w Lwfans Teithio, gan gynnwys cyfanswm costau gweithredu'r newidiadau; y costau/arbedion sy'n gysylltiedig â threfniadau adnewyddu; a'r costau/arbedion sy'n gysylltiedig â newidiadau cysylltiedig eraill megis codiad yng nghyflogau staff.**

Fel y nodwyd yn ein llythyr at y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2021, amcangyfrifwyd arbedion blynyddol o rhwng £219,000 a £329,000 yn dibynnu ar filltiroedd blynyddol a wnaed gyda chost ymlaen llaw o £1.48m yn 2021-22 yn cael ei ad-dalu o arbedion yn 2022-23 a 2023-24.

Os digwydd hynny, y gost ymlaen llaw oedd £1.086m (fel y nodir yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2021-22), gyda £378,000 o'r gost hon yn cael ei dalu gan Archwilio Cymru a'r balans o £708,000 o adnodd ychwanegol Cronfa Gyfunol Cymru - ad-dalwyd drwy ostyngiad yn ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru o £354,000 yn 2022-23 a 2023-24.

Ar gyfer 2024-25 rydym yn amcangyfrif y bydd arbedion blynyddol gwirioneddol oddeutu £300,000 ar sail debyg am debyg. Mae hyn oherwydd cynnydd yn nifer y staff gweithredol a fyddai wedi bod â hawl i dderbyn lwfans teithio pe na bai wedi'i ddileu. Mae dadansoddiad o gynilon a chostau wedi'u nodi isod.

| | |
|---|---|
| Cynilion ar Lwfans Teithio | (£873k) |
| Mwy o gyflog hyfforddai a phrentisiaid | £140k |
| Codiad cyflog ar gyfer staff eraill | £293k |
| Cynnydd costau milltiroedd | £146k |
| Arbed net | (£294k) |

**Argymhelliad 17. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn parhau i geisio ffyrdd o reoli'r codiadau cyflog y mae'n cynnig eu dyfarnu i staff o fewn ei gyllideb bresennol.**

Mae ein mecanwaith adolygu cynaliadwyedd ariannol parhaus wedi'i gynllunio i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o arbedion ac effeithlonrwydd, wrth gynnal ansawdd archwilio a chefnogi lles staff.

**Argymhelliad 18. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar y canlynol:**

- **sut y bydd y cyllid sy'n gysylltiedig â dyfarniadau cyflog staff yn cael ei ddefnyddio ar draws graddau;**
- **effaith gyllidebol penderfyniadau a wneir mewn perthynas â chyflogau staff;**
- **ymgynghoriadau sy'n cael eu cynnal ag Undebau Llafur a chyrff adolygu cyflogau arbenigol; ac**
- **effaith fwriadedig y dyfarniadau cyflog ar drosiant staff.**

Byddwn yn diweddaru'r Pwyllgor ar ein trefniadau tâl ar gyfer 2024-25 unwaith y byddwn wedi derbyn hawliad gan yr Undebau Llafur ac mae hyn wedi'i setlo.

**Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn rhoi diweddariad ar y cynllun hyfforddeion estynedig, gan gynnwys ei gostau cysylltiedig, a gwybodaeth am gyfran y staff newydd gymhwyso sy'n aros yn y sefydliad.**

Bydd Archwilio Cymru yn darparu diweddariadau pellach ar y cynllun estynedig wrth i'r cyllid ychwanegol ddod i rym yn 2024-25; gan gynnwys canlyniad cylch recriwtio 2024 a fydd yn adlewyrchu'r niferoedd ychwanegol o hyfforddeion a datblygiad parhaus trefniadau rheoli'r cynllun.

Nodir gwybodaeth am nifer yr hyfforddeion a sicrhaodd gyflogaeth barhaol gyda ni ar gymhwyster ym mhob blwyddyn a chanran o’r staff sy'n parhau i fod mewn cyflogaeth gyda ni nawr, yn y tabl isod.

| Carfan Hyfforddai | Nifer yr Hyfforddeion yn y garfan | Nifer yn cael cynnig rôl barhaol | % yn cael cynnig rôl barhaol | Dal yn y swydd | % o'r rhai sy'n dal yn y swydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 2024 | 13 | 12 | 92% | 12 | 100% |
| 2023 | 11 | 8 | 73% | 7 | 88% |
| 2022 | 11 | 8 | 73% | 5 | 63% |
| 2021 | 10 | 9 | 90% | 3 | 33% |

**Argymhelliad 20. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Archwilio Cymru yn darparu diweddariadau rheolaidd ar sut y mae'n gwerthuso effaith ei godiadau ffioedd sy'n gysylltiedig â'i safonau archwilio newydd.**

Roedd y dull archwilio diwygiedig a ddefnyddiwyd yn 22-23 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflogi staff mwy profiadol, cymwys yn broffesiynol ar yr archwiliadau,

gan arwain at y cynnydd mwy na'r arfer mewn ffioedd archwilio. Gan fyfyrio ar ganlyniadau'r archwiliadau 22-23 y GIG a'r llywodraeth ganolog a gwblhawyd, mae'n amlwg bod angen y gymysgedd sgiliau cyfoethocach hon, ac o ganlyniad y ffi archwilio uwch, er mwyn cydymffurfio â'r safon archwilio ddiwygiedig. Fel y nodwyd uchod, byddwn yn cynnal adolygiad o'r dull diwygiedig ar ôl cwblhau ein gwaith Llywodraeth Leol 2022-23 dros y misoedd nesaf. Pan nodir effeithlonrwydd yn y dull archwilio, mae ein deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ni ad-dalu Cyrff Archwiliedig am unrhyw ffi ormodol a godir.

Peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni os oes unrhyw eglurhad defnyddiol pellach y gallwn ei ddarparu.

Yn gywir





**KATE CHAMBERLAIN**
**Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru**

**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

1 Chwefror 2024

Annwyl Peredur

Diolch am Adroddiad y Pwyllgor Cyllid a gyhoeddwyd ar 26 Ionawr ynghylch y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) fel rhan o graffu cyfnod 1.

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith craffu ystyriol Cam 1. Rwyf wedi ystyried yn ofalus adroddiad y pwyllgor ac rwy'n hapus i dderbyn yr holl argymhellion. Gweler fy ymateb yn Atodiad 1 i'r argymhellion cyn i'r Ddadl Egwyddorion Cyffredinol Cyfnod 1.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

| |
|---|
| **Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddarparu Asesiadau o'r Effaith Rheoleiddiol i gyd-fynd ag unrhyw is-ddeddfwriaeth berthnasol a wneir o dan y Bil hwn. |
| **Derbyniwyd**. Rydym wedi ymrwymo i hyn o fewn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil. |
| **Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am gostau sy'n ymwneud â newidiadau i'r Systemau Rheoli Etholiadol wrth iddynt ddod yn glir; gan gynnwys manylion ar sut yr asesir cost effeithiolrwydd cynlluniau peilot unigol. |
| **Derbyniwyd**. Byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth am gostau wrth iddo ddod yn amlwg. Bydd gwerthusiad llawn a chadarn o'r holl beilotiaid yn digwydd gan gynnwys y goblygiadau ariannol a'r goblygiadau i wasanaethau EMS. Bydd hyn yn ofynnol i unrhyw gynigion peilot a gyflwynir i'r Bwrdd Rheoli Etholiadol a bydd yn ofynnol iddo adrodd ar oblygiadau ariannol cynlluniau peilot arfaethedig wrth ei werthuso. |
| **Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gostau sy'n gysylltiedig â gwaith sy'n cael ei wneud i gynyddu hygyrchedd etholiadau i bleidleiswyr anabl. |
| **Derbyniwyd**. Byddwn yn nodi rhagor o wybodaeth yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r is-ddeddfwriaeth. |
| **Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am ganlyniadau'r ymchwil y mae'n bwriadu ei gomisiynu i hyrwyddo amrywiaeth mewn personau sy'n ceisio swyddi etholedig. Mae hyn yn cynnwys sut mae'r wybodaeth honno'n cael ei chasglu a'i choladu; a sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth honno i wneud ymyriadau wedi'u targedu. |
| **Derbyniwyd**. Byddwn yn darparu canlyniad yr ymchwil a wnaed pan fydd wedi'i gwblhau. Bydd hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar rwystrau i gyfranogiad mewn democratiaeth leol oherwydd amgylchiadau economaidd-gymdeithasol. Yn ehangach byddwn yn parhau i weithio gydag eraill i nodi rhwystrau i gyfranogiad unigolion mewn grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol drwy ymgysylltu, gwersi a ddysgwyd o fentrau presennol ac adborth drwy adroddiadau ac astudiaethau ehangach. Bydd y dull hwn yn llywio ymyriadau a mentrau yn y dyfodol sydd wedi'u targedu at rwystrau a nodwyd drwy'r gwaith hwn. |
| **Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn credu bod cyflwyno asesiad fforddiadwyedd, fel yr un a ddarperir yn y Bil hwn, yn fodel arfer da ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol ac rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau â'r dull newydd hwn. |
| **Derbyniwyd**. Rydym yn ddiolchgar am sylwadau'r Pwyllgor. |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Papur Tystiolaeth**

# Y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

## Cynnwys


1. Egwyddorion Cyffredinol y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) Tudalen 1
2. Yr angen am y Ddeddfwriaeth Tudalen 1
3. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Tudalen 2
4. Pryderon Rhanddeiliaid Tudalen 2
5. Cyflwyno'r Cwricwlwm Tudalen 4
6. Deddfwriaeth Tudalen 7
7. Cyllid Tudalen 11


## 1. Egwyddorion Cyffredinol y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

1.1. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi mai diben y Bil yw gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod pobl ifanc sy'n cael addysg a gynhelir yn cael cyfle i brofi addysg awyr agored breswyl, am o leiaf wythnos, ar ryw adeg yn ystod eu blynyddoedd ysgol. I bob pwrpas, mae'n ceisio creu hawl statudol i o leiaf wythnos o brofiad awyr agored preswyl ar gyfer pob disgybl yng Nghymru.

1.2. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw hawl o'r fath mewn deddfwriaeth.

## 2. Yr Angen am y Ddeddfwriaeth

2.1. Nid oes angen y Bil am fod gan ysgolion y pwerau cyfreithiol i ddarparu addysg awyr agored breswyl eisoes, os byddant yn dymuno gwneud hynny. Bydd yn ychwanegu at feichiau ariannol ysgolion ac awdurdodau lleol ac mae'r Bil wedi'i ddrafftio yn y fath fodd fel bod ei effaith gyfreithiol yn aneglur a'i fod yn ddiffygiol. Mae'r Bil yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Deddf 2021) nad ydynt yn briodol am nad ydynt yn cyd-fynd â'r cynllun deddfwriaethol nac egwyddorion y Ddeddf. Bydd y Bil yn tynnu sylw ysgolion oddi ar y dasg hollbwysig o weithredu'r cwricwlwm newydd.

2.2. Mae'r cwricwlwm newydd yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer profiadau awyr agored ac nid yw'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil yn cyflwyno'r achos o blaid cynnig addysg awyr agored breswyl yn ddigonol. Bydd y Bil yn gwneud addysg awyr agored breswyl yn orfodol.

## 3. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

3.1. Cred Llywodraeth Cymru nad yw'r Bil yn hyrwyddo nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn ffordd ystyrlon a'i fod yn tanseilio nodau cyffredinol egwyddorion y cwricwlwm newydd yn Neddf 2021.

3.2. Mae'r saith nod a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol eisoes yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu Cymru iachach yn ogystal â nodau economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys pwysigrwydd datblygu poblogaeth fedrus a hyddysg mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth.  Mae digon o gyfle yn y cwricwlwm newydd i ysgolion gynnwys addysg awyr agored ac addysg awyr agored breswyl os bydd hynny'n briodol.  Mae'r cwricwlwm newydd yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion a lleoliadau eraill gynllunio eu cwricwlwm eu hunain o fewn y fframwaith deddfwriaethol a nodir yn Neddf 2021.  Bydd hynny yn galluogi'r ysgolion hynny a lleoliadau eraill i deilwra'r cwricwlwm er mwy diwallu anghenion ei ddisgyblion.

3.3. Mae'r Bil yn mabwysiadu un dull gweithredu sy'n addas i bawb drwy ei gwneud yn ofynnol, i bob pwrpas, i bob ysgol a lleoliad gynnig addysg awyr agored breswyl ac i bob disgybl ymgymryd ag addysg awyr agored breswyl. Bydd y Bil yn gwneud addysg awyr agored breswyl yn orfodol ac, felly, mae'n tanseilio'r hyblygrwydd y mae Deddf 2021 yn ei gynnig i ysgolion a lleoliadau eraill ar hyn o bryd.

## 4. Pryderon Rhanddeiliaid

### *Ymatebion i'r Ymgynghoriad*

4.1. Ar 31 Ionawr 2023, lansiodd Sam Rowlands AS ymgynghoriad ar ei gynnig ar gyfer y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) ar y pryd, gan wahodd pobl i roi eu barn yr amcanion polisi'r ddeddf arfaethedig.  Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 17 Mawrth 2023.

4.2. Er bod yr ymatebwyr o blaid yr egwyddorion sy'n sail i'r cynnig, ar y cyfan, nodwn fod 11 o ymatebwyr (6%) yn anghytuno â'r egwyddorion sy'n sail i'r cynnig, a oedd yn cynnwys saith pennaeth a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT).

4.3. Nodir isod y prif resymau a roddwyd gan y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig:

- Pryder y caiff cyllid ei ddargyfeirio i ffwrdd o gyllidebau craidd ysgolion, y maent yn credu y dylent fod yn flaenoriaeth ar gyfer unrhyw gyllid sydd ar gael i'w wario ar addysg.

- Pryderon ynghylch y goblygiadau o ran staffio os caiff hyn ei wneud yn statudol – sicrhau bod digon o staff ysgol i fynd gyda disgyblion a'r effaith a'r pwysau ar y rhai sy'n fodlon mynd.
- Pryderon na chaiff ysgolion gyllid i dalu costau llawn y gofynion staffio – naill ai talu goramser y rhai sy'n goruchwylio ymweliadau neu gael staff i gyflenwi pan fyddant yn absennol.

4.4. Er eu bod o blaid yr egwyddorion sy'n sail i'r cynnig, ar y cyfan, cafwyd llawer o sylwadau ynghylch materion y mae angen eu hystyried ymhellach, ym marn yr ymatebwyr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pryderon ynghylch y goblygiadau negyddol o ran staffio os caiff hyn ei wneud yn ofyniad statudol.
- Pryder ynghylch a ddylai hyn fod yn hawl gyffredinol am ddim neu a ddylid targedu adnoddau, yn lle hynny, at y rhai sy'n wynebu rhwystrau penodol, megis aelwydydd incwm isel.
- Pryderon na ddylid ystyried bod addysg awyr agored breswyl yn ddarpariaeth untro yn unig ond yn hytrach y dylai gael ei ategu gan weithgareddau a dysgu rhagarweiniol a dilynol.
- Pryderon ynghylch ansawdd y ddarpariaeth a sut y sicrheir safonau priodol.
- Pryderon ynghylch adnoddau'r sector a'r trefniadau sydd ar waith (gan gynnwys trefniadau llywodraethu a chyllid) rhwng Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a darparwyr.
- Pryderon ynghylch amrywiaeth yr addysg awyr agored a ddarperir, gan gydnabod bod gan blant a phobl ifanc anghenion a diddordebau gwahanol.
- Pryderon ynghylch y pethau ymarferol sy'n ymwneud â diwallu anghenion cymhleth rhai disgyblion a phwysigrwydd hynny, er enghraifft y rhai ag anghenion meddygol neu emosiynol neu anghenion dysgu, neu anableddau.
- Pryderon ynghylch a oes angen i addysg awyr agored fod yn ddarpariaeth breswyl o reidrwydd a sut y gellir ei hymgorffori ym mywyd yr ysgol a'r gymuned hefyd.
- Cwestiynau ynghylch sut y gall y Bil arfaethedig ategu'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, gan gynnwys cynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifanc glywed a siarad Cymraeg.

4.5. Mae barn Llywodraeth Cymru am y Bil Awyr Agored Breswyl (Cymru) yn cydnabod y pryderon hyn gan y rhanddeiliaid hynny sy'n agosaf at y gwaith o gyflwyno addysg awyr agored breswyl mewn ysgolion yng Nghymru ac, yn arbennig, sydd â rhesymau difrifol iawn dros beidio â'i chefnogi mewn tri maes allweddol:

- Cyflwyno'r Cwricwlwm
- Deddfwriaeth

- Cyllid

4.6. Nodir y pryderon hyn yn fanwl yng ngweddill y ddogfen hon.

## 5. Cyflwyno'r Cwricwlwm

***Trosolwg***

5.1 Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi cryn bwyslais ar ddysgu drwy brofiad. Mae dysgu yn yr awyr agored yn llawer ehangach nag un profiad preswyl. Cydnabyddir ei fod o'r pwys pennaf i gynnydd plentyn yn ogystal â'i ddatblygiad a'i lesiant, gan gynnwys ei ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol, corfforol, gwybyddol, diwylliannol a phersonol – sy'n golygu bod profiadau yn gyfoethocach ac yn fwy cofiadwy. Mae hyn yn arbennig o wir yn ystod y blynyddoedd cynnar ond mae'n ymestyn drwy gydol amser dysgwyr yn yr ysgol.

5.2 Mae defnyddio'r amgylchedd dysgu yn effeithiol yn alluogydd allweddol ar gyfer y cwricwlwm ar hyd y continwwm ar gyfer dysgwyr 3-16 oed. Wrth gynllunio eu cwricwlwm, bydd angen i ymarferwyr ystyried sut y gall amgylchedd eu hysgol a'u hardal leol, dan do ac yn yr awyr agored, helpu dysgwyr o bob oedran i brofi cyfleoedd dysgu dilys.

5.3 Mae'r canllawiau statudol ar y Cwricwlwm i Gymru, y mae'n rhaid i bob ysgol eu hystyried, yn pwysleisio pwysigrwydd yr amgylchedd dysgu fel un o alluogwyr allweddol y cwricwlwm ac yn nodi y dylai dysgwyr o bob oedran brofi cyfleoedd dysgu dilys dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r egwyddor addysgegol a nodir yn y canllawiau hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd dysgu yn yr awyr agored.

5.4 Felly, mae disgwyliad clir y dylai dysgwyr gael cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored yn rheolaidd a bod hyn yn helpu dysgwyr i ddatblygu'n unigolion iach a hyderus. Bydd manylion y ddarpariaeth hon yn amrywio yn ôl gofod ffisegol yr ysgol, oedran, datblygiad ac anghenion dysgwyr a ffocws y dysgu. Wedyn, mae ysgolion yn sicrhau eu bod yn ymgorffori dysgu yn yr awyr agored mewn nifer o ffyrdd.

5.5 Mae hyn yn cydnabod y bydd yr hyn sy'n ennyn diddordeb dysgwyr ac sydd fwyaf effeithiol o ran eu helpu i ddatblygu ymddygiadau cadarnhaol mewn perthynas â'r awyr agored yn amrywio o ddysgwr i ddysgwr ac nad oes 'un dull gweithredu sy'n addas i bawb'.

5.6 Mae hyn hefyd yn cydnabod bod angen datblygu ymddygiadau cadarnhaol hirdymor dros amser ac mai'r ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu'r ymddygiadau hynny yw drwy amlygiad parhaus i'r awyr agored yng nghyd-

destun yr ysgol, gan alluogi dysgwyr o bob oedran i werthfawrogi manteision yr awyr agored.  Mae hyn yn llawer ehangach nag un ymyriad.

***Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru***

5.7 Anogir dysgu yn yr awyr agored ar draws y Cwricwlwm i Gymru, yn arbennig ym meysydd Iechyd a Lles, Gwyddoniaeth a Thechnoleg a'r Dyniaethau. Tynnir sylw at hyn yn yr adrannau “Cynllunio eich Cwricwlwm” ar gyfer pob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, sy'n rhan o'r canllawiau statudol y darperir ar eu cyfer o dan Adran 3 (1) o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 y mae'n rhaid i bob ysgol eu hystyried wrth ddatblygu ei chwricwlwm.  Mae hyn yn cynnwys:

***Iechyd a lles:***

- *Pa gyfleoedd ar gyfer gweithgaredd corfforol y bydd eich dysgwyr yn eu mwynhau a’u gweld yn ystyrlon? Beth sy’n eu hysgogi i ymwneud â gwahanol rolau, cyfrifoldebau ac amgylcheddau (e.e. dan do, y tu allan, mewn ac o amgylch dŵr)?*
- *Er enghraifft, bydd mwynhad o weithgareddau y tu allan yn dylanwadu ar iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr.*

***Gwyddoniaeth a Thechnoleg:***

- *Mae archwilio a phrofi’r byd trwy ymholi gan gynnwys gwaith maes, ymchwilio amgylcheddau dan do a thu allan mewn ffordd ddiogel a threfnus, yn allweddol i’r holl ddysgwyr ar draws y continwwm 3 i 16.*
- *Gall hyn helpu adeiladu dealltwriaeth dysgwyr o wahanol faterion amgylcheddol a bod o gymorth iddyn nhw ddangos gofal, cyfrifoldeb, pryder a pharch tuag at bopeth byw a’r amgylchedd rydyn ni’n byw ynddo.*

***Y Dyniaethau:***

- *Ystod o gyfleoedd i ddysgu y tu allan er mwyn:*
  - *profi ynghyd â myfyrio ar ryfeddod y byd naturiol*
  - *ymwneud ag amrywiaeth o dirweddau, nodweddion hanesyddol a daearyddol, amgylcheddau a lleoedd*
  - *dysgu mewn ardaloedd naturiol lleol a safleoedd hanesyddol*
  - *cynnal ymchwiliadau a gwaith maes yn annibynnol yn ogystal ag ar y cyd, mewn partneriaethau â sefydliadau, grwpiau ac unigolion lle mae’n briodol*
  - *ymwneud â safleoedd hanesyddol, diwylliannol a chrefyddol, gan gynnwys lleoedd sy’n arwyddocaol i’r rhai y mae eu ffydd a’u cred yn bwysig iddyn nhw*
  - *Mae treulio amser yn yr awyr agored yn cefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol a chorfforol dysgwyr, yn ogystal â'u lles.*

- *Mae bod yn yr awyr agored hefyd yn eu helpu i ddod yn ymwybodol o'r angen i ddangos gofal a pharch tuag at bethau byw.*

***Addysgeg***

5.8 Mae defnyddio'r awyr agored i ymestyn dysgu y tu hwnt i ffiniau'r ystafell ddosbarth yn rhan annatod o addysgeg cwricwlwm i leoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir ac mae'n darparu cyd-destunau dilys uniongyrchol ar gyfer dysgu. Eleni, er enghraifft, rydym wedi rhoi arian i'r Mudiad Meithrin er mwyn i wyth hyfforddwr 'Bod y Tu Allan' cyswllt newydd gymhwyso i gyflwyno cymhwyster newydd y dystysgrif mewn Ymarfer Awyr Agored ('Outdoor Practice'). Mae'r cymhwyster yn benodol i'r blynyddoedd cynnar, gan alluogi'r ymarferydd i ddod yn rhagweithiol wrth wella'r ddarpariaeth, yr arfer a'r rheolaeth o'r amgylchedd y tu allan ar gyfer lles, chwarae, dysgu a datblygiad; Mae hefyd yn rhoi cryn bwyslais ar ddatblygiad plant, gan rymuso'r ymarferydd i roi addysgeg y blynyddoedd cynnar ar waith yn ei leoliad gwaith.

5.9 Mae'r canllawiau Galluogi Dysgu yn pwysleisio, er y dylai'r 12 egwyddor addysgegol fod yn gymwys i bob cwricwlwm a gaiff ei gynllunio, y dylid rhoi sylw arbennig i ddulliau allweddol sy'n hanfodol i ddysgu sylfaen – megis dysgu a chwarae yn yr awyr agored.

5.10 Mae adran Addysgeg fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a'r rhannau allweddol o'r canllawiau ar y Meysydd Dysgu a Phrofiad, yn amlinellu pwysigrwydd dysgu yn yr awyr agored ar hyd y continwwm addysg. Er bod dysgu yn yr awyr wedi'i gysylltu'n draddodiadol ag addysg y blynyddoedd cynnar, mae'r Cwricwlwm i Gymru yn annog ei ddefnyddio ar gyfer pob grŵp oedran, lle y gall gefnogi dysgu drwy ddarparu profiadau a chyd-destunau dilys ac ysbrydoledig.

***Casgliad***

5.11 Am y rhesymau hyn (egwyddorion y cwricwlwm, addysgeg a natur y meysydd dysgu a phrofiad) nid yw'r Cwricwlwm i Gymru yn cysylltu dysgu yn yr awyr agored â phrofiad penodol ar adeg benodol ar lwybr dysgwyr. Mae'n debygol y byddai unrhyw ofyniad ychwanegol o'r fath a gynigir, petai'n ymwneud â'r cwricwlwm, yn mynd y tu hwnt i egwyddorion ac ethos y Cwricwlwm, a nodir yn Fframwaith y Cwricwlwm.

5.12 Yn ein barn ni, y ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu ymddygiadau cadarnhaol dysgwyr mewn perthynas â'r awyr agored a'u cydberthynas ag ef yw cynnig profiad parhaus o ddysgu yn yr awyr agored ar hyd eu taith ddysgu. Wrth gwrs, byddwn yn parhau i gefnogi dysgu yn yr awyr agored drwy ein dull o ymdrin ag adnoddau a deunyddiau ategol ac rydym yn bwriadu gweithio gyda'r proffesiwn drwy'r Rhwydwaith Cenedlaethol, sef ein

llwyfan ar gyfer ymgysylltu â'r proffesiwn addysgu ynghylch y Cwricwlwm i Gymru.

## 6. Deddfwriaeth

6.1 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu addysg awyr agored breswyl i ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn yr “hen gwricwlwm” nac yn y “cwricwlwm newydd”. Ar hyn o bryd, mae Cymru yn graddol ddileu'r hen gwricwlwm sydd wedi'i gynnwys yn bennaf yn Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002. Ar yr un pryd mae'n graddol gyflwyno'r cwricwlwm newydd sydd wedi'i gynnwys yn bennaf yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Bydd blwyddyn olaf y broses bontio ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 ym mlwyddyn ysgol 2026-27, pan fydd yr holl ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yng Nghymru yn astudio'r cwricwlwm newydd. Mater i ysgolion fydd penderfynu p'un a fyddant yn darparu addysg awyr agored breswyl ai peidio. Nid oes unrhyw beth mewn deddfwriaeth sy'n atal ysgolion rhag ei darparu nac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ei darparu.

6.2 Os caiff addysg awyr agored breswyl ei darparu fel gweithgaredd allgyrsiol, mae gan ysgolion hawl i godi ffi i dalu cost darparu addysg awyr agored breswyl. Fodd bynnag, os caiff ei darparu fel rhan o'r cwricwlwm gorfodol, boed hynny o dan yr hen gwricwlwm neu'r cwricwlwm newydd, ni ellir codi tâl am yr addysg awyr agored breswyl a ddarperir.

6.3 O ystyried hynny, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi: “Y cynnig oedd sefydlu Bil i roi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod pobl ifanc sy’n cael addysg a gynhelir yn cael y cyfle i brofi addysg awyr agored breswyl, am o leiaf wythnos, ar ryw adeg yn ystod eu blynyddoedd ysgol". Rydym yn cymryd bod hynny'n golygu ar awdurdodau lleol yn unig. Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn gosod y ddyletswydd i ddarparu'r addysg awyr agored breswyl ar awdurdodau lleol, fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol, ond yn lle hynny mae'n ei gosod yn uniongyrchol ar Weinidogion Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu addysg awyr agored breswyl ac, i bob golwg, ei hariannu os caiff yr addysg awyr agored breswyl honno ei darparu gan drydydd parti.

6.4 Ar wahân i hyn, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ei gwneud yn rhan orfodol o'r cwricwlwm newydd fel bod yn rhaid i'r ysgolion ei darparu fel rhan o arlwy'r cwricwlwm a gynllunnir ganddynt. Felly, nid yw'r Bil yn nodi'n glir beth yw'r bwriad deddfwriaethol o ran pwy sy'n darparu'r addysg awyr agored breswyl.

6.5 Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi y bydd “... plant a phobl ifanc yn cael eu hannog – ond nid yn cael eu gorfodi – i gymryd rhan mewn addysg awyr agored breswyl”. Yn anffodus, wrth ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud addysg awyr agored breswyl yn rhan fandadol o'r cwricwlwm, nid yw'n ei gwneud yn orfodol. Nid yw'r Bil yn ffurfio set synhwyrol o ddarpariaethau deddfwriaethol.

6.6 Mae'r cwricwlwm newydd a nodir yn Neddf 2021 yn newid enfawr i ysgolion a lleoliadau eraill. Bydd angen amser a chymorth arnynt i'w weithredu'n llawn er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau i ddysgwyr. Bydd y newidiadau a gynigir gan y Bil, waeth beth fo'r bwriad polisi gwirioneddol, yn rhoi beichiau ychwanegol arnynt ac yn tynnu eu sylw oddi ar y genhadaeth honno.

***Dyletswydd i ddarparu addysg awyr agored breswyl***

6.7 Fel y nodwyd uchod, nid yw'r Bil yn cyflawni ei nod datganedig o sefydlu dyletswydd statudol *ar awdurdodau lleol* i sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle i brofi addysg awyr agored breswyl. Ni osodir unrhyw ddyletswyddau ar awdurdodau lleol yn y Bil. Gosodir pob dyletswydd ar Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ei gwneud yn *Ddatganiad o'r Hyn sy'n Bwysig*, bydd yn ofynnol i ysgolion a lleoliadau eraill ei darparu.

6.8 Felly, nod adran 64A o'r Bil yw gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff addysg awyr agored breswyl ei darparu i bob disgybl mewn ysgol a gynhelir. Fodd bynnag, mae sawl problem yn gysylltiedig â'r dull gweithredu hwnnw.

6.9 Nid yw Gweinidogion Cymru yn *darparu* addysg yn uniongyrchol (h.y. darparu addysg i ddysgwyr). Yn lle hynny, mae eu dyletswyddau wedi'u cyfyngu i ddarparu adnoddau ariannol neu gymorth arall ar ffurf canllawiau ac ati. Nid yw'n briodol gosod dyletswydd o'r fath ar Weinidogion Cymru.

6.10 Mae dyletswydd o'r fath yn benodol yn anghydnaws â chynllun deddfwriaethol Deddf 2021, lle y gosodir dyletswyddau i ddarparu addysg ar y lleoliadau eu hunain (e.e. penaethiaid, cyrff llywodraethu, athrawon sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion ac ati).

6.11 Mae'r ddyletswydd hon hefyd wedi'i geirio mewn termau bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gymryd *camau rhesymol* i sicrhau y darperir addysg awyr agored breswyl. Nid yw'n glir pa mor bell y byddai'r ddyletswydd honno'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fynd i ddarparu'r addysg awyr agored breswyl. Mae'r Bil yn darparu bod camau rhesymol yn cynnwys ei gwneud yn gydsyniad allweddol h.y. yn elfen orfodol yn y cwricwlwm ac wrth lunio canllawiau. Ymddengys ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud y ddau beth hyn ac, felly, nid yw'n glir beth arall (os oes unrhyw beth) y byddai'r ddyletswydd i gymryd camau rhesymol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ei wneud.

6.12 Drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ei gwneud yn gydsyniad allweddol, mae'n cael ei gwneud yn rhan orfodol o'r cwricwlwm. Mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i ysgolion a lleoliadau eraill sicrhau bod addysg awyr agored breswyl yn cael ei darparu. Nid yw hyn yn cyd-fynd â'r datganiad yn y Memorandwm Esboniadol mai diben y Bil yw ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud hyn na'r darpariaethau yn y Bil sydd, mewn gwirionedd, yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud hyn. Nid yw'r Bil yn nodi'n glir pwy sy'n gorfod darparu'r addysg awyr agored breswyl.

6.13 Ac nid yw'n glir ychwaith beth fydd y canlyniad i'r disgybl/rhiant os na fydd y plentyn eisiau ymgymryd ag addysg awyr agored breswyl. Gallai fod sawl rheswm pam na fyddai plentyn eisiau cymryd rhan ynddi. Os yw'n rhan orfodol o'r cwricwlwm, dylai fod rhyw gosb am beidio â chymryd rhan ynddi. Mae'n debygol y byddai hynny'n golygu cymryd camau disgyblu am beidio â chymryd rhan mewn digwyddiad sy'n elfen ofynnol o gwricwlwm yr ysgol yn yr un ffordd ag y byddai camau disgyblu yn cael eu cymryd am beidio â mynd i sesiwn ddosbarth arferol. Er bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi y dylai fod yn wirfoddol, hynny yw nid effaith gyfreithiol y Bil.

6.14 O ystyried yr hyn a nodir yn y Memorandwm Esboniadol, mae'n bosibl mai'r bwriad gwirioneddol ar gyfer adran 64A(1) yw y bydd ond yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru arfer eu swyddogaethau presennol er mwyn helpu cyrff eraill i ddarparu'r addysg awyr agored breswyl eu hunain (h.y. yr awdurdod lleol a/neu ysgolion), yn hytrach na bod Gweinidogion Cymru yn darparu'r addysg awyr agored breswyl eu hunain. Mae adran 66 o Ddeddf 2021 eisoes yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru arfer eu swyddogaethau er mwyn hwyluso'r broses o gyflawni swyddogaeth a roddir i'r rhai o dan Rannau 3 a 4 o Ddeddf 2021. Mewn geiriau eraill, dylent sicrhau bod adnoddau ar ffurf arian ac ati ar gael er mwyn i'r lleoliadau allu cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, os mai dyna oedd bwriad adran 64A, nid yw'n ei gyflawni.

6.15 Fel y nodwyd uchod, mae adran 64A(2) yn darparu bod cymryd camau rhesymol yn cynnwys gwneud addysg awyr agored breswyl yn gydsyniad allweddol mewn maes dysgu a phrofiad a chyhoeddi cod o ran sut y dylai cwricwlwm ddarparu addysg awyr agored breswyl. Fodd bynnag, yn gysyniadol, nid yw addysg awyr agored breswyl yn bwnc ac, felly, nid yw'n gwbl gydnaws fel cydsyniad allweddol yng nghynllun deddfwriaethol Deddf 2021. Mae hynny'n ategu'r pwynt nad yw addysg awyr agored breswyl yn cyd-fynd â Deddf 2021. At hynny, nid yw ei gwneud yn rhan orfodol o'r cwricwlwm yn golygu bod yn rhaid i'r ALl ei darparu. Fel y nodwyd uchod, nid yw'r Bil yn cael yr effaith gyfreithiol honno.

6.16 Gan y bydd yn rhan orfodol o'r cwricwlwm, mae'n debyg y bydd angen i Estyn ei harolygu. Nid yw'n glir sut y bydd hynny'n gweithio o gofio ei bod yn cael ei darparu oddi ar y safle gan drydydd partïon ac, yn aml, fusnesau preifat. Mae gan Estyn bwerau i fynd i mewn i leoliadau, eu harolygu a mynd â dogfennau i ffwrdd mewn perthynas ag arolygiadau o ysgolion ond cyfyngedig yw ei bwerau i wneud hynny pan fydd rhan o addysg disgybl yn cael ei darparu oddi ar safle'r ysgol. Ni fyddai'n cynnwys plant dan 15 oed sy'n ymgymryd ag addysg awyr agored breswyl. Ni wneir unrhyw ddarpariaeth mewn perthynas â hynny yn y Bil.

6.17 Fel rhan orfodol o'r cwricwlwm sy'n cael ei threfnu gan yr ysgolion, yr ysgol fydd in locus parentis. Mewn geiriau eraill, caiff ei dal yn gyfreithiol gyfrifol am bob disgybl fel petai'n rhiant cyfrifol. Felly y mae pan fydd disgyblion ar safle'r ysgol ond mae'n dasg fwy beichus os byddant yn

ymgymryd ag addysg awyr agored breswyl ar safleoedd cyrff trydydd parti ac yn defnyddio eu cyfarpar.

6.18 Mae adran 64A(1) yn darparu bod yn rhaid i'r ddyletswydd gael ei chyflawni (h.y. dyletswydd i sicrhau bod addysg awyr agored breswyl yn cael ei darparu) cyn i ddisgyblion beidio â bod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol. Dim ond i ysgolion a gynhelir yng Nghymru y mae'r Bil yn gymwys. Felly, os bydd disgybl yn peidio â bod wedi'i gofrestru fel disgybl mewn ysgol yng Nghymru ar unrhyw adeg ac am unrhyw reswm - e.e. er mwyn gadael Cymru neu fynd i uned cyfeirio disgyblion, neu os darperir addysg heblaw yn yr ysgol ar ei gyfer, bydd Gweinidogion Cymru wedi methu â chyflawni'r ddyletswydd honno. Byddai honno'n sefyllfa annaliadwy i Weinidogion Cymru gan na fyddent yn gwybod pryd y byddai pob disgybl yn peidio â bod wedi'i gofrestru mewn ysgol yng Nghymru.

6.19 Mae i'r Bil oblygiadau i Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol hefyd. Nid yw'n glir a fydd yn ofynnol i athrawon oruchwylio'r gweithgareddau preswyl dros nos hyn ac, felly, fod yn bresennol pan fyddant yn cael eu cynnal. Ar hyn o bryd, nid oes rhwymedigaeth arnynt i wneud hynny ac, felly, ymddengys i swyddogion y bydd yn rhaid i Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol gael ei diwygio, yn ôl pob tebyg.

***Canllawiau***

6.20 Mae'r drafft yn mewnosod adran 71A newydd yn Neddf 2021. Mae'n darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau o dan adran 71 o Ddeddf 2021. Mae sawl problem yn gysylltiedig â'r dull gweithredu hwnnw.

6.21 Mae'r pŵer i lunio canllawiau o dan adran 71 yn bŵer yn hytrach na dyletswydd h.y. mae'n ddewisol. Nid yw'n briodol troi'r pŵer dewisol i lunio canllawiau yn bŵer mandadol i lunio canllawiau at ddibenion addysg awyr agored breswyl. Petai angen pŵer mandadol i lunio canllawiau, dylai fod yn ddarpariaeth annibynnol ac ni ddylai fod yn gysylltiedig ag adran 71. Byddai adran 71A arfaethedig yn cyflwyno anghysondeb yn y dull o ymdrin â phwerau i lunio canllawiau yn Neddf 2021. Nid yw'n glir pam mae canllawiau ar addysg awyr agored breswyl yn cael eu trin yn wahanol i ganllawiau ar faterion pwysig eraill yn y cwricwlwm newydd e.e. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb neu unrhyw un o'r meysydd dysgu a phrofiad. Fel y mae, mae'r Bil yn rhoi darlun dryslyd a chamarweiniol i'r darllenydd.

6.22 Nid yw'n glir ychwaith pwy fydd y gynulleidfa darged ar gyfer y canllawiau a gyhoeddir o dan adrannau 71A a 71. Mae gan adran 71 gynulleidfa darged eang ond nid yw'r rhan fwyaf o'r gynulleidfa honno yn berthnasol i'r swyddogaethau yn adran 64A. Dim ond i ysgolion a gynhelir yng Nghymru y mae adran 64A yn gymwys ac, felly, nid yw'n gymwys i unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion annibynnol, addysg feithrin a ariennir nas cynhelir na mathau o addysg heblaw yn yr ysgol. Ac eto, fel y'i drafftiwyd, mae'r Bil yn darparu y byddai Gweinidogion Cymru yn gallu cyhoeddi

canllawiau ar y gynulleidfa ehangach honno nad oes ganddynt unrhyw swyddogaethau mewn perthynas ag addysg awyr agored breswyl.

6.23 Mae'r ffordd y mae'r darpariaethau ar gyfer canllawiau wedi'u drafftio yn awgrymu y gallant gynnwys gofynion mandadol. Er enghraifft, mae'r Bil yn darparu bod yn rhaid i'r canllawiau gynnwys sawl mater gan gynnwys darpariaeth y dylai addysg awyr agored breswyl gael ei darparu yn Gymraeg. Mae hefyd yn nodi y caiff y canllawiau osod gofynion cyn y gellir nodi bod person yn deilwng i ddarparu addysg awyr breswyl. Nid yw hynny'n briodol gan mai dim ond cyngor y gall canllawiau ei gynnwys, nid gofynion.

6.24 Mae'r pwerau i lunio canllawiau hefyd yn darparu bod yn rhaid i unrhyw ganllawiau ddarparu nad yw addysg awyr agored breswyl yn orfodol. Fodd bynnag, effaith darpariaethau eraill y Bil yw y bydd yn cael ei gwneud yn rhan orfodol o'r cwricwlwm ac, felly, mae darpariaethau'r Bil yn anghyson.

6.25 Sut bynnag, ni ddylid cynnwys y fath gyfyngiadau ar bŵer Gweinidogion Cymru i lunio canllawiau. Mae natur y pwerau i lunio canllawiau yn golygu bod yn rhaid iddynt gael eu defnyddio i helpu'r rhai â swyddogaethau i arfer y swyddogaethau hynny yn well. Er mwyn gwneud hyn, mae angen sicrhau bod gan y canllawiau y cyfle i ddatblygu dros amser. Mae'n bosibl y bydd tystiolaeth yn awgrymu, yn y dyfodol, nad yw'r gofyniad pedwar diwrnod yn adlewyrchu'r arfer gorau. Os felly, byddai'n rhaid inni ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol cyn inni allu diwygio'r canllawiau. Nid yw hynny'n ymarferol nac yn briodol, yn ein barn ni.

## 7. Cyllid

7.1. Mae'r Prif Weinidog wedi datgan yn glir iawn i'r Senedd a'r cyhoedd dros y misoedd diwethaf fod y sefyllfa gyllidebol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus o dan bwysau eithriadol. Mewn ymateb i Ddatganiad Cyllideb yr Hydref gan Ganghellor y DU, nododd y Gweinidog Cyllid fod cyllideb Llywodraeth Cymru yn 2024-25 bellach £3 biliwn yn llai nag y byddai wedi bod petai wedi cynyddu yn unol â'r economi ers 2010".

7.2. Cyllideb ddrafft 2024-25 oedd y gyllideb fwyaf anodd ers datganoli gyda chyllideb Llywodraeth Cymru yn werth hyd at £1.3bn yn llai mewn termau real nag ydoedd pan gafodd ei phennu yn 2021. O ganlyniad, bu'n rhaid inni ail-lunio'r dyraniadau gwariant dangosol yn ein cyllideb er mwyn darparu cyllid a sicrwydd ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl a chymunedau ledled Cymru – y GIG a'r setliad llywodraeth leol craidd, sy'n ariannu ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, a gwasanaethau pob dydd eraill.

7.3. Yng nghyllideb portffolio'r Gymraeg ac Addysg, rydym wedi ailflaenoriaethu cyllid er mwyn inni allu diogelu cyllid ysgolion cymaint â phosibl. Yn anffodus, nid yw ein setliad cyllid cyffredinol yn ddigon i ateb yr holl bwysau a'n galluogi i wneud yr holl bethau rydym am eu gwneud. Mae gwario mwy mewn maes

penodol yn golygu bod llai i'w wario mewn meysydd eraill. Lle y bu'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd, rydym wedi ceisio nodi'r meysydd hynny lle mae'r effeithiau cymharol yn llai na'r dewisiadau amgen iddynt ac rydym wedi ceisio cymryd camau i liniaru effeithiau cymaint â phosibl.

7.4. Rydym yn cydnabod bod yr argyfwng costau byw yn rhoi pwysau sylweddol ar ysgolion ac awdurdodau lleol ac nad oes unrhyw atebion hawdd i ddatrys y problemau a wynebir. Yn ystod cyfnod ariannol heriol, mae gwelededd a thryloywder mewn perthynas â chyllid yn bwysicach fyth. Drwy gyllideb ddrafft 2024-25 rydym yn cynnig symleiddio'r cyllid i awdurdodau lleol ac ysgolion ymhellach er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i ysgolion ac awdurdodau lleol o ran y defnydd a wneir o'r cyllid. Mae'r cynnig yn y Bil i ddarparu cyllid wedi'i dargedu, penodol iawn yn mynd yn groes i'n hegwyddorion a'n dull o roi mwy o hyblygrwydd o ran y defnydd a wneir o gyllid grant.

7.5. Mae'r Bil yn rhoi rhwymedigaeth absoliwt ar Lywodraeth Cymru i ddarparu a chyllido'r ddarpariaeth addysg awyr agored breswyl gyfan, beth bynnag y bo, a waeth beth fo'r gost. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn amcangyfrif y byddai'r gost ychwanegol i drethdalwyr hyd at £19.7m y flwyddyn. Er ein bod yn cydymdeimlo ag egwyddorion annog addysg awyr agored breswyl, nid yw'r hyn sy'n cael ei gynnig gan y Bil yn fforddiadwy a bydd blaenoriaethu cyllid ar gyfer addysg awyr agored breswyl yn golygu bod llai o gyllid mewn meysydd eraill â blaenoriaeth yn y sector addysg, megis cyllidebau ysgolion.

*Goblygiadau cost y Bil*

7.6. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y Bil yn sefydlu rhwymedigaeth statudol i ddyrannu cyllid i ddarparwyr addysg a gynhelir i'w galluogi i ddarparu addysg awyr agored breswyl. Mewn geiriau eraill, mae'n gosod dyletswydd statudol absoliwt ar Weinidogion Cymru i ariannu cost gyfan beth bynnag sy'n cael ei ddarparu o ran addysg awyr agored breswyl.

Ailadroddir y costau yn y Memorandwm Esboniadol dros gyfnod o bum mlynedd isod:

| Costau (£) | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mynychu canolfannau gweithgareddau awyr agored (Costau parhaus) | | | | | | |
| Amrediad isel | 12,397,720 | 12,317,360 | 12,209,800 | 11,868,800 | 11,559,000 | 60,352,680 |
| Amrediad uchel | 16,321,040 | 16,216,240 | 16,074,080 | 15,623,920 | 15,216,720 | 79,452,000 |
| Cludiant (Costau parhaus) | | | | | | |
| Amrediad isel | 1,330,759 | 1,322,353 | 1,309,809 | 1,272,148 | 1,239,749 | 6,474,818 |
| Amrediad uchel | 1,861,574 | 1,850,044 | 1,833,195 | 1,780,829 | 1,735,735 | 9,061,377 |
| Athrawon cyflenwi (Costau parhaus) | | | | | | |
| | 1,554,335 | 1,535,813 | 1,498,348 | 1,447,457 | 1,388,414 | 7,424,366 |
| **Cyfanswm y costau** | | | | | | |
| Amrediad isel | 15,282,814 | 15,175,526 | 15,017,956 | 14,588,405 | 14,187,163 | 74,251,864 |
| Amrediad uchel | 19,736,949 | 19,602,097 | 19,405,623 | 18,852,206 | 18,340,869 | 95,937,743 |

7.7. Mae'r costau hyn yn cyd-fynd, fwy neu lai, â'r amcangyfrifon a gyfrifwyd yn flaenorol ar gyfer y Bil gan swyddogion. Fodd bynnag, cred swyddogion fod y costau hyn yn annhebygol o leihau o flwyddyn i flwyddyn dros y cyfnod o bum mlynedd, fel y dangoswyd uchod, o ystyried y gyfradd chwyddiant gyfredol.

7.8. At hynny, ac er mwyn bod yn glir, mae'r Bil yn rhoi rhwymedigaeth absoliwt ar Lywodraeth Cymru i gyllido'r ddarpariaeth ble bynnag y caiff ei darparu. Mae risg sylweddol na fydd yn bosibl fforddio'r costau yn yr hinsawdd ariannol bresennol a hinsawdd ariannol y dyfodol. At hynny, nid oes unrhyw

gyllidebau dangosol ar ôl mis Mawrth 2025. Felly, mae risg yn gysylltiedig ag ymrwymo i gostau rhagamcanol heb gyllidebau dangosol.

### *Costau ac anfanteision heb eu mesur*

7.9. Fodd bynnag, nid yw'r costau hyn yn cwmpasu goblygiadau staffio'r Bil o ran y newidiadau y mae'n debygol y bydd angen eu gwneud i Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol, sy'n darparu ar gyfer y nifer uchaf o oriau a weithir yn y flwyddyn a phryd y gellir gofyn i athro weithio oriau ychwanegol. Byddai goruchwylio disgyblion ar wythnos breswyl y tu allan i amseroedd sesiynau ysgol arferol ac, ar hyn o bryd, rydym yn tybio bod ysgolion yn rheoli hyn drwy ofyn am wirfoddolwyr o blith y staff addysgu. Hefyd, mae terfynau penodol ar gyfer yr athrawon hynny sy'n gweithio'n rhan-amser. Petai taith breswyl yn cael ei gwneud yn orfodol, mae'n debygol y byddai angen diwygio Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol er mwyn adlewyrchu hynny gan y bydd angen i hynny gael ei gefnogi gan athrawon. Rhoddir effaith gyfreithiol i Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol drwy orchymyn a chaiff cynnwys y ddogfen ei negodi ag undebau llafur.

### *Sefyllfa ariannol ysgolion*

7.10. Mae pryderon cynyddol yn y system addysg ynghylch argyfwng cyllid mewn ysgolion yng Nghymru. Mae pwysau sylweddol ar gyllidebau ysgolion ac rydym yn clywed bod ysgolion yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd iawn oherwydd pwysau cyllidebol.

7.11. Mater i awdurdodau yw penderfynu faint o arian a neilltuir ar gyfer cyllidebau ysgolion. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cyllido ysgolion yn uniongyrchol. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer darpariaeth cyn-16 mewn ysgolion yng Nghymru yn bennaf drwy'r Setliad Refeniw Llywodraeth Leol, a hynny ar ffurf y Grant Cynnal Refeniw.

7.12. Ar ôl i'r setliad llywodraeth leol gael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol, yr awdurdodau unigol sy'n gyfrifol am bennu cyllidebau ar gyfer eu hysgolion drwy ddefnyddio fformiwla ariannu leol. Mae Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i 70% o'r cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion gael ei ddosbarthu ar sail nifer y disgyblion. Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i ddosbarthu'r 30% sy'n weddill ar sail amrywiaeth o ffactorau er mwyn iddynt ystyried amgylchiadau ysgolion unigol.

7.13. O dan y gyfraith, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu Fforwm Ysgolion. Diben Fforwm Ysgolion yw helpu i feithrin deialog hyderus sy'n seiliedig ar wybodaeth rhwng awdurdodau lleol a'u hysgolion ynghylch materion cyllidebol.

7.14. Mae'r lefel uchel o gronfeydd wrth gefn a gofnodwyd dros yr ychydig flynyddoedd ariannol diwethaf yn peri syndod, am fod llawer o weithgareddau wedi cael eu hatal yn ystod y pandemig. Parhaodd ysgolion i gael eu cyllid craidd arferol ynghyd â chyllid COVID-19 ychwanegol er eu bod yn gwario llai am fod ysgolion ar gau am wahanol gyfnodau o amser.

7.15. Roeddem yn gwybod mai sefyllfa dros dro fyddai hon ac, er bod sefyllfa ysgolion wedi bod yn llawer iachach, ar yr wyneb, mae'r lefel uchel o gronfeydd wrth gefn wedi bod yn gostwng yn gyflym.

7.16. Yn y datganiad ystadegol diweddaraf (a gyhoeddwyd ym mis Hydref), mae cronfeydd wrth gefn ysgolion wedi lleihau o £301m yn 2022, i £208m ar 31 Mawrth 2023; lleihad o £93m, sy'n cyfateb i ostyngiad o 31% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

7.17. Yn 2022, roedd 44 o ysgolion yn wynebu diffyg ariannol. Mae'r nifer hwn wedi cynyddu i 117 o ysgolion ym mis Mawrth 2023.

7.18. Er yr ymddengys fod cronfeydd wrth gefn ysgolion yn uchel o hyd, mae'n bwysig nodi eu bod yn gostwng yn gyflym iawn ac ni ddylem anghofio bod llawer o ysgolion eisoes yn wynebu diffyg ariannol.

***Casgliad***

7.19. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd y Bil yn rhoi pwysau ychwanegol sylweddol a diangen ar gyllidebau ysgolion yn genedlaethol ac ar lefel awdurdodau lleol ac ysgolion, ar adeg pan ellid dadlau eu bod eisoes o dan gymaint o bwysau ag y maent wedi'u hwynebu erioed o'r blaen. Felly, yn ein barn ni, ni ellir fforddio'r Bil ar hyn o bryd.

**Sam Rowlands**
Member of the Welsh Parliament for North Wales
-
Aelod Senedd dros Gogledd Cymru

**North Wales Office | Swyddfa Gogledd Cymru**
North Wales Business Park, Abergele LL22 8LJ
-
**Cardiff Office | Swyddfa Caerdydd**
Senedd Cymru, Cardiff Bay, Cardiff CF99 1SN
-
**Tel | Ffôn:** 0300 200 7267
**Email | E-bost:** sam.rowlands@senedd.wales

Jayne Bryant
Chair of Children, Young People and Education Committee
Senedd Cymru

23 January 2024

Dear Jayne,

**Residential Outdoor Education (Wales) Bill**

I am writing with regard to the recent written evidence paper that was provided to the Committee by the Minister for Education and Welsh Language.

It is worth noting at the outset that I fully respect the Minister's entitlement to have a view on the Bill, and the purpose of me writing today is not to question the Minister's overall position on the Bill. However, I have read the Minister's paper in detail and there are, I believe, some factual inaccuracies or misrepresentations of what the intention of the Bill is and what it does.

I thought it would therefore be helpful to write to the Committee ahead of the session with the Minister to help clarify some of those issues, and to hopefully help the scrutiny process. I am, of course, attending CYPE Committee myself on 1 February, and would be happy to explore these areas further at that time.

**The need for legislation**

Consideration of whether the Bill is required to deliver its stated aims is a vital piece of the scrutiny process. Unfortunately, the Minister's assertions on whether there is a need for the Bill seems to miss the core aim of the Bill, which is to make the provision of residential outdoor education a statutory requirement.

The Minister states that 'The Bill is unnecessary as schools already have the legal powers to provide residential outdoor education if they wish'. However, the Minister also concedes in the paper that 'It is a matter for schools as to whether they chose to provide residential outdoor education (ROE) or not. There is nothing in legislation that prevents or requires it'.

As clearly set out in the Explanatory Memorandum (EM) that accompanies the Bill, the intention of the Bill is to move ROE away from being an enrichment to the curriculum, which is often viewed as a 'nice to have', to being an entitlement of the education offer. The effect of the Bill is to make ROE part of the curriculum and whether primary legislation is needed must focus on this, but this does not seem to be reflected in the Minister's paper.

Furthermore, during the Minister's oral evidence session with the Legislation, Justice and Constitution Committee on 22 January, a specific question was asked on whether the legislation was required. The Minister's response was unclear. At the outset of the meeting he indicated that making ROE itself compulsory could be done using existing regulation making powers, whereas making it compulsory to offer the opportunity would require legislation. At the conclusion of the meeting, when asked if he believed there is a non-statutory means of delivering the objectives of the Member in charge, he stated "not on the compulsory side of things". There appears to be a contradiction during the course of the Minister's evidence in Committee and a lack of consistency with what is included in the evidence paper to CYPE Committee.

As this is such a fundamental question, it is vital that there is clarity on the Minister's position here.

The Minister's paper also questions the Bill's approach as to whether pupils will be compelled to attend ROE. I know that there was some discussion of this in the LJC Committee regarding whether the Bill's purpose is to require that an offer of ROE is made to pupils or to make it a requirement of the Curriculum for Wales. The Bill does both. Pupils will be entitled to ROE and schools must provide it as part of the curriculum. However, the Bill requires that the guidance the Welsh Government issues must provide that it is not compulsory for pupils to attend ROE, for example if they really do not want to do so or it is not in their best interests.

Section 42 of the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 and the associated regulations also assist in this area. I appreciate that the Minister referred to this as a "blunt instrument" so it may assist the Committee to have further information as to why the Minister makes this assessment of his own regulation making power. I

realise that cumulatively this provides pupils with a right to opt out from that aspect of the Curriculum for Wales and that may have caused some confusion but I believe the legal effect of this is clear.

**Placing a statutory duty on local authorities or the Minister?**

The Minister's paper, on several occasions, states that the intention of the Bill was to place a statutory duty on **local authorities** to ensure that young people receiving maintained education are provided with the opportunity to experience ROE. The paper states that because the Bill doesn't place any duties on local authorities (and instead places them on Welsh Ministers) it does not meet the purpose as set out in the EM.

I am particularly concerned that in making this assertion, the Minister has clearly based his thinking on the information contained in the original explanatory memorandum tabled at the start of the process (August 2022) and not on the Bill or the detailed Explanatory Memorandum introduced by me on 24 November 2023. At paragraph 6.3 of his paper, the Minister quotes from paragraph 3 of the EM upon introduction, which describes what my proposal was at the time of the 'leave to proceed' debate in October 2022. Upon reading the EM further, however, it would have been apparent that this changed as the Bill was developed, as I explain below.

When I entered the Ballot, my proposal had intended that the duties would be placed on local authorities. However, during the development of the Bill, and in designing the best method to deliver the main policy objectives, it was decided that the Bill should instead place a duty on the Welsh Ministers to '**ensure pupils in maintained schools are provided with residential outdoor education'** rather than on local authorities directly.

This change in how the policy objectives would be delivered is explained in the detailed EM that accompanies the Bill (see para 8 and para 117 as examples of where this is mentioned). In particular, footnote 140 on page 58 specifically explains the change in thinking. Footnote 140 states:

"Whilst not directly resulting from the consultation, a significant change to the proposals consulted is that the Bill places the duty on the Welsh Ministers to ensure pupils in maintained schools are provided with residential outdoor education rather than on local authorities as was originally set out in the consultation document. This was due to the level of detail that will need to be considered for the Bill's implementation."

Another concern is that paragraph 6.9 of the Minister's paper states that it is not appropriate to place a duty on the Welsh Ministers to provide residential outdoor education. Again, I believe this misreads / misrepresents the intention of the Bill, which actually places a duty on Welsh Ministers to **ensure it is provided**, not to provide it themselves. However, in paragraph 6.14 of the Minister's paper, there does seem to be an acknowledgement that the intention is for the Welsh Ministers to use their powers to facilitate other bodies to deliver ROE.

It is disappointing that the Minister does not seem to understand the important change in how the policy objectives are being delivered through the Bill (i.e. the deliberate intention to not place duties directly on local authorities). It is also concerning that the Minister has read the Bill as placing a duty on Welsh Ministers to deliver ROE, which it clearly does not do. To be clear, when the Welsh Ministers carry out their duty under the Bill, ROE would be included on the curriculum so at that point there would be a duty upon schools to provide ROE as part of the curriculum.

**Effectiveness of the Bill**

The Minister's paper makes a clear statement that the Bill is drafted in such a way that its legal effect is defective, but does not give any clear explanation as to why that is the case. If there are areas of the Bill that the Minister considers to be defective, it would be better for that to be clearly explained, so that those areas can be considered during the scrutiny process.

The paper also states that the amendments the Bill seeks to make to the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 are not appropriate as they do not fit with the legislative scheme or the principles of that Act. Again, there is no explanation of why that is considered to be the case.

**Guidance making powers**

The Minister states that he does not consider it appropriate to use the same guidance making power which is used to issue discretionary guidance on the Curriculum for Wales (section 71 of that Act) to put a duty on the Welsh Ministers to issue guidance on Residential Outdoor Education.

In drafting the Bill, this has been considered and my understanding is that there is no legal difficulty with the Bill including a power to issue guidance on some matters (i.e. Welsh Ministers may issue guidance), and a duty to issue guidance on other matters (i.e. Welsh Ministers must issue guidance). This is not an inconsistent approach, it is simply taking a different approach for different things.

As an additional point, paragraph 6.25 of the Minister's paper makes reference to the "4-day requirement" in the context of guidance. A previous draft of the Bill that was published for consultation included reference to the course of ROE being comprised of at least 4 nights and 5 days in guidance. However, the Bill as introduced makes the duration clear on the face of the Bill and does not refer to it as part of the guidance. I am particularly concerned that in making this reference, the Minister has clearly based his thinking on a previous draft of the Bill and not the Bill as introduced.

**Finance**

The paper from the Minister states that the Bill will add to the financial burden on schools and local authorities. What the paper seems to omit is that one of the key aims of the Bill, as set out in Section 2, is to provide for the Welsh Ministers to pay local authorities an amount sufficient to enable the functions relating to ROE to be carried out. The intention, therefore, is that there should not be any additional financial burden on schools or local authorities.

I fully acknowledge that there may be additional costs to be met from the Welsh Government budget. The Minister has raised this in the Plenary statement following the Bill's introduction on 29 November, in LJC Committee on 22 January, and in the written paper to CYPE Committee. The Minister has continually asserted that any additional costs arising from the Bill, would need to be taken from the existing Education and Welsh Language portfolio budget.

The Bill itself, while requiring Welsh Ministers to pay local authorities a sufficient amount, does not require that to come directly through the Education and Welsh Language portfolio budget. The absolute intention of the Bill is that there should be no cut to existing education budgets, as I fully appreciate the importance of maintaining those budgets to meet the current priorities.

There are other matters raised in the Minister's paper that I do not necessarily agree with, and would be happy to explore those further with the Committee. What I have set out above are, I believe, more crucial to the Committee's scrutiny, and I hope some of the clarification I have provided will help that scrutiny.

Yours sincerely



Sam Rowlands MS
**Member of the Welsh Parliament for North Wales**

Copied to:
Huw Irranca-Davies, Chair of the Legislation, Justice and Constitution Committee
Peredur Owen Griffiths, Chair of the Finance Committee

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon